Department for Culture, Media and Sport

Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC

Rhagfyr 2003

Cynnwys

	tudalen
Rhagair	3
Fframwaith ymgynghori	5
Ymatebion	6
Y BBC heddiw	7
Tirlun sy'n newid	11
Swyddogaethau a gwasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus	14
Gwasanaethau masnachol	17
Talu am y BBC	18
Trefniadaeth ac isadeiledd	21
Llywodraethu, rheoleiddio a chyfansoddiad	23
Atebolrwydd	26
Pen y daith	28
Crynodeb o'r themâu a'r cwestiynau allweddol	29
Atodiad A: Gwasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus	31
Atodiad B: Gweithgareddau masnachol y BBC	40
Atodiad C: Cyfeiriadau defnyddiol	44

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Mae'r BBC yn sefydliad unigryw. Mae ei rôl mewn bywyd cyhoeddus yn un unigryw. Mae'r ffordd y caiff ei ariannu yn unigryw. Mae hoffter y cyhoedd ohono yn unigryw.

Yn yr un modd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae'n sefydliad Prydeinig yn ei hanfod. Mae'r cyhoedd yn ymddiried ynddo. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel cenedl, yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor. Cydnabyddir y BBC ledled y byd ac fe'i hystyrir yn feincnod ansawdd, gonestrwydd ac amrywiaeth.

Mae gennym oll fudd yn y BBC. Ni sy'n talu amdano ac mae nifer ohonom yn troi ato yn ystod cyfnodau o argyfwng neu ddathlu cenedlaethol. Adolygu'r Siarter yw'n cyfle ni i sicrhau bod y BBC yn parhau i gyflawni'r hyn yr ydym yn dymuno iddo'i gyflawni.

Cynhelir yr Adolygiad hwn o'r Siarter mewn cyfnod gwahanol iawn i'r un diwethaf a gynhaliwyd ym 1996. Mae'r ffeithiau'n cadarnhau hyn. Erbyn diwedd 2003, bydd dros 50% o gartrefi yn y DU yn gallu manteisio ar deledu digidol mewn rhyw ffordd. Nid oedd unrhyw gartref yn gallu manteisio ar wasanaeth o'r fath ym 1996. Yn 2003, mae 50% o gartrefi yn gallu manteisio ar y Rhyngrwyd. Amcangyfrifwyd bod 4% yn gallu gwneud hyn ym 1996. Wrth i'r chwyldro cyfathrebu digidol gyflymu, mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn cael cyfle i addasu rôl y BBC yn y chwyldro hwn. Bydd y trosglwyddo i ddarlledu digidol yn y dyfodol yn golygu bod hyn yn bwysicach fyth.

Roedd yr ymchwydd hwn o ran technoleg a dewis yn ffactor allweddol wrth lunio'r Ddeddf Gyfathrebu yn ddiweddar. Mae'r ddeddfwriaeth bwysig hon, y rhoddwyd Caniatâd Brenhinol iddi yn gynharach eleni, yn trawsnewid ac yn symleiddio'r fframwaith cyfreithiol i ddiwydiant y cyfryngau. Bydd yn sicrhau bod cyfleoedd a sialensiau technoleg a dewis digidol yn cael eu rheoli er lles y gwylwyr trwy hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad. Bydd creu un rheolydd, Ofcom, yn sicrhau cydymffurfiad â'r safonau uchaf o ran y cynnwys a ddarlledir. Yn fyr, mae'n gosod y sylfaen ar gyfer sector darlledu iach a chynhwysfawr yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Ac nid yw cyd-destun yr adolygiad hwn yn wahanol iawn o ganlyniad i'r cam o fanteisio ar dechnolegau newydd yn gyflym yn unig. Mae'r ffaith bod y Brydain gyfoes yn newid – o ran amrywiaeth ei chymdeithas a'i diwylliant, a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd – yn golygu y gellir dadlau mai'r adolygiad hwn yw un o'r rhai mwyaf cymhleth ac arwyddocaol yn hanes darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Dyma'r rheswm pam bod yr ymgynghoriad hwn yn hollbwysig yn fy marn i. Mae'n rhoi cyfle i bawb ddweud eu dweud. Dim ond ar ôl i bawb leisio'u barn y gallwn fod yn siŵr ein bod yn cyflawni'r amcan y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddo: sicrhau parhad BBC cadarn sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, nawr ac yn y dyfodol.

Bydd camau'r Adolygiad o'r Siarter sy'n weddill yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr ymgynghoriad yr ydym yn ei lansio heddiw. Ond rydym yn gwybod na fydd yn digwydd mewn gwagle. Bydd llu o brosiectau eraill yn cyfrannu at yr ymgynghoriad – gan gynnwys adolygiad Ofcom o ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus ac adolygiadau DCMS o wasanaethau'r BBC ar y rhyngrwyd a'i wasanaethau digidol.

Yn dilyn hyn, bwriadwn gyhoeddi Papur Gwyrdd tua diwedd 2004 neu ar ddechrau 2005, a fydd yn nodi'r dewisiadau posibl ar gyfer y BBC yn y dyfodol. Caiff y dewisiadau hyn eu cadarnhau mewn Papur Gwyn yn ddiweddarach. Cyhoeddir y ddwy ddogfen hon at ddibenion ymgynghori. Wrth gwrs, caiff y Senedd gyfle i gyfrannu hefyd.

Mae'r cyhoedd yn mynnu mwy o wasanaethau Teledu, y Rhyngrwyd a Radio nag erioed o'r blaen ac mae'n disgwyl mwy gan ei brif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus nag erioed o'r blaen hefyd.

Dyma'ch cyfle chi i sicrhau bod y BBC ar y trywydd iawn – yn arwain o'r tu blaen. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar waith y Llywodraeth dros y ddwy flynedd nesaf. Estynnaf wahoddiad i chi fanteisio ar y cyfle hwn ac ymgymryd â'ch rôl o addasu dyfodol y BBC.

Tessa Jowell.

TESSA JOWELL

Fframwaith ymgynghori

1. Ers ei ddyddiau cynharaf, ffurfiwyd y BBC gan Siarter Frenhinol. Roedd y Siarter gyntaf yn ymestyn o 1 Ionawr 1927 tan 31 Rhagfyr 1936. Rydym bellach yn cyrraedd diwedd y seithfed Siarter.

2. Mae hyd penodol y Siarter yn rhoi cyfle i ni, bob rhyw ddeng mlynedd, i ystyried rôl, swyddogaethau a strwythur y BBC yn ofalus. Bydd y Siarter bresennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2006. Mae'r ddogfen hon yn cychwyn proses ymgynghori ac adolygu agored ac eang a fydd yn pennu'r fframwaith y bydd y BBC yn gweithio ynddo dros y deng mlynedd nesaf.

3. Hoffai'r Llywodraeth glywed safbwyntiau ynghylch pob agwedd ar y BBC, ond mae wedi pennu un pwynt – mai BBC cadarn ac annibynnol o'r Llywodraeth fydd canlyniad yr adolygiad o'r Siarter. Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r materion i'w hystyried ynghylch dyfodol y BBC, ond nid yw'n rhestr gyflawn. Bydd yn pennu fframwaith dadl eang a chynhwysfawr ynghylch unrhyw elfen o ddiddordeb i'r cyhoedd neu sy'n destun pryder i'r cyhoedd.

4. Oherwydd ehanger effaith y BBC ar unigolion a chymdeithas, mae'r ddogfen yn nodi themâu bras i arwain y drafodaeth. Adlewyrchir pob thema mewn cwestiynau allweddol yn yr adran berthnasol. Fodd bynnag, ni ddylai'r rhai sy'n ymateb deimlo'u bod yn cael eu cyfyngu gan y fframwaith hwn. Fe'i darperir fel canllaw i ysgogi dadl yn unig.

5. Hoffai'r Llywodraeth glywed sylwadau a syniadau gan ystod mor eang ag y bo modd o wylwyr, gwrandawyr a'r holl unigolion a sefydliadau eraill sydd â diddordeb, ynghylch pob agwedd ar y BBC. Bydd y rhannau sy'n weddill o'r adolygiad yn dibynnu'n rhannol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Tua diwedd 2004 neu ar ddechrau 2005, bwriadwn gyhoeddi Papur Gwyrdd, a fydd yn nodi'r dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Caiff y dewisiadau hyn eu cadarnhau mewn Papur Gwyn yn ddiweddarach. Cyhoeddir y ddwy ddogfen hon at ddibenion ymgynghori. Bydd eich ymatebion chi yn ein helpu i benderfynu pa waith ymchwil a dadansoddi pellach y bydd angen ei wneud i hysbysu'r Llywodraeth wrth iddi ystyried dyfodol y BBC.

Ymatebion

Dylid anfon ymatebion (trwy gyfrwng e-bost neu ffurf electronig arall yn ddelfrydol) erbyn 31 Mawrth 2004 at:

E-bost

bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk

Ymatebion drwy'r post

BBC Charter Review Consultation
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r ymatebion cyn pen deng diwrnod gwaith o'u cael, oni bai y gwneir cais eu bod yn cael eu cadw'n gyfrinachol neu os ceir rhesymau eraill o'r pwys mwyaf – er enghraifft os bydd ymateb yn cynnwys deunydd enllibus – dros wneud hynny.

Gallwch gael gwybodaeth bellach ar wefan yr adolygiad o'r Siarter sef www.bbccharterreview.org.uk, neu trwy ffonio tîm yr adolygiad o'r Siarter ar 020 7211 6418

Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech eu cyfeirio at:

Simon Cooper
Department for Culture, Media and Sport
Strategy, Policy and Delivery Team
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH

Y BBC heddiw

'Beth rydych chi'n ei werthfawrogi am y BBC?'

6. Mae'r BBC wedi bod yn rhan bwysig o gymdeithas Prydain ers bron i bedwar ugain o flynyddoedd. Mae graddau'r newid yn y BBC ac mewn cymdeithas dros y cyfnod hwnnw yn aruthrol.

7. Heddiw, mae'r BBC yn cyflogi dros 27,000 o bobl yn uniongyrchol, a llawer mwy yn anuniongyrchol, gan ddarparu 8 sianel deledu a ariennir gan arian cyhoeddus, 10 gorsaf radio genedlaethol, dros 40 o orsafoedd radio lleol a gwasanaeth radio rhyngwladol, BBC World Service. Mae'n darparu ystod eang o wasanaethau masnachol trwy gyfrwng dwsinau o is-gwmnïau a mentrau ar y cyd. Mae ei drosiant ymhell dros £3 biliwn.

8. Ffurfiwyd y BBC ym 1922 fel y Cwmni Darlledu Prydeinig. Ar 1 Ionawr 1927, fe'i hailgyfansoddwyd fel y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig a dyfarnwyd y Siarter Frenhinol gyntaf. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, ffurfiodd y BBC ei ddelwedd ei hun fel darlledwr annibynnol a oedd yn darparu gwasanaeth addysg, gwybodaeth ac adloniant i'r genedl gyfan. Yn ystod y blynyddoedd cynnar, radio oedd yr unig gyfrwng darlledu. Ychwanegwyd gwasanaeth teledu rheolaidd at hyn, a ddarparwyd o 1936 tan ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Ni wnaeth teledu hoelio sylw'r cyhoedd tan y 1950au cynnar, fodd bynnag, yn dilyn coroni'r Frenhines, a wyliwyd gan oddeutu 20 miliwn o wylwyr. Trowch at y bocs am gerrig milltir a welwyd yn ddiweddarach.

Cerrig Milltir	
1932	Lansio BBC World Service
1955	Y monopoli darlledu yn dod i ben wrth lansio ITV ym 1955
1964	Lansio ail wasanaeth teledu – BBC2
1968	Lansio gorsaf radio leol gyntaf y BBC
1969	Cyflwyno teledu lliw
1971	Darllediadau cyntaf y Brifysgol Agored
1978	Cychwyn darllediadau radio rheolaidd o drafodion y Senedd
1986	BBC Enterprises (BBC Worldwide yn ddiweddarach) yn cyfuno'r holl weithgareddau masnachol
1998	Lansio gwasanaeth teledu digidol cyntaf y BBC
Diwedd y 1990au	Datblygu gwasanaeth ar-lein cynhwysfawr

Adolygiad DGC Ofcom

Cychwynnodd Ofcom ar ei adolygiad pum mlynedd cyntaf o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2003.

Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiad o'r graddau y mae'r BBC, Sianelau 3, 4 a 5, ac S4C, wedi darparu rhaglenni a gwasanaethau, y maent gyda'i gilydd yn bodloni amcanion darlledu gwasanaeth teledu cyhoeddus yn y DU. Nid yw'r adolygiad yn ymestyn i wasanaethau radio, ond mae'n cynnwys gwasanaethau cyfryngau newydd i'r graddau y maent wedi'u cysylltu â theledu, megis gwasanaethau rhyngweithiol a chynnwys ar-lein yn ymwneud â theledu. Yn ogystal, bydd yn ystyried cyfryngau eraill a'r graddau y maent yn effeithio ar gyflawni amcanion teledu gwasanaeth cyhoeddus.

Rhaid i'r adolygiad ddarparu argymhellion ynghylch cynnal a chryfhau ansawdd teledu DGC yn y dyfodol hefyd, gan ystyried y costau darparu a'r ffynonellau incwm sydd ar gael i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd yr adolygiad yn ceisio ateb nifer o gwestiynau allweddol, a fydd yn cynnwys:

- Beth yw amcanion a diffiniadau presennol DGC ac a ydynt yn briodol ar gyfer y dyfodol?
- Beth yw'r ffordd orau i ni feintoli a mesur y ffordd y darperir DGC, gan gynnwys ei effaith ar unigolion a chymdeithas gyfan?
- Pa mor effeithiol y caiff amcanion DGC eu cyflawni gan sianelau DGC 'gyda'i gilydd'?
- Beth yw'r costau darparu a sut y mae'r costau hyn yn cymharu â'r manteision a geir?
- Beth yw'r prif newidiadau o ran y farchnad, technoleg a chynulleidfaoedd a fydd yn effeithio ar y farchnad gyfan yn y dyfodol?
- Sut fydd hyn yn effeithio ar Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, eu sefyllfa gystadleuol a'u trefniadau ariannu?
- Beth yw'r goblygiadau i amcanion, manteision a chostau DGC?
- Beth yw'r dulliau mwyaf effeithiol o gynnal neu gryfhau teledu DGC yn yr amgylchedd hwn sy'n newid?

Bydd yr adolygiad yn cynnwys tri cham:-

Cam 1 (Tach 2003 hyd gwanwyn 2004): y Sefyllfa Bresennol

Cam 2 (gwanwyn hyd haf 2004): Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol

Cam 3 (haf hyd diwedd yr hydref 2004): Cynigion/Argymhellion

Caiff yr adolygiad ei seilio ar waith ymchwil trylwyr ac ymgynghoriad cyhoeddus mawr. Bydd ei gasgliadau'n ffynhonnell dystiolaeth bwysig iawn ar gyfer yr adolygiad o Siarter y BBC oherwydd y byddant yn helpu i osod y BBC yng nghyd-destun y tirlun darlledu gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Am ragor o fanylion trowch at wefan Ofcom www.ofcom.org.uk neu anfonwch e-bost at psbr@ofcom.org.uk

Ofcom, sef 'Office of Communications', yw rheolydd diwydiant cyfathrebu y DU. Ar ôl 2003, bydd yn ymgymryd â'r dyletswyddau ychwanegol a bennwyd yn Neddf Cyfathrebu 2003, gan ddisodli'r Comisiwn Safonau Darlledu, y Comisiwn Teledu Annibynnol, Oftel, yr Awdurdod Radio a'r Asiantaeth Gyfathrebu Radio.

9. Mae'r BBC yn rhan o dirlun darlledu sy'n cynnwys, yn y byd teledu, nifer o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr masnachol nad yw eu cylch gorchwyl yn cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yw: ITV; Channel 4; Channel 5; S4C a Theletestun (ond dim ond y BBC ac S4C a ariennir gan arian cyhoeddus). Yn y byd radio, mae'r BBC yn rhan o amgylchedd amrywiol sy'n cynnwys nifer o orsafoedd radio masnachol cenedlaethol a lleol hefyd. Bydd yr adolygiad o'r Siarter yn ystyried safle'r BBC yn y tirlun darlledu ehangach hwnnw yn gyffredinol. Bydd yn ystyried canfyddiadau adolygiad presennol Ofcom o ddarlledu gwasanaeth teledu cyhoeddus (gweler y bocs ar dudalen 8 am ragor o fanylion), a fydd ynddo'i hun yn gyfle i'r cyhoedd gyfleu eu safbwyntiau ynghylch cwmpas a chyflawniad amcanion gwasanaeth cyhoeddus y farchnad ddarlledu.

10. Ar yr un pryd, rydym wedi disgwyl i'r BBC sicrhau gwerth i'r rhai sy'n talu'r drwydded ac elfen o gystadleuaeth â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gyda'r nod o wella ansawdd. Cwestiwn allweddol yw a geir perthynas gywir rhwng allbwn y BBC a'r hyn a ddarperir yn fasnachol.

11. Hoffem glywed eich safbwyntiau ynghylch cyfraniad y BBC i fywyd y genedl ers ei sefydlu a'i rôl heddiw – yn y wlad hon ac yn rhyngwladol – o ran yr effaith ar unigolion a chymdeithas yn gyffredinol, a sut y gallai hyn fod wedi newid. Mae gennym ddiddordeb i weld a yw gwerthoedd sefydlwyr y BBC – 'addysgu, hysbysu a diddanu' – yn ddilys o hyd a sut y gallwn farnu'r ffordd y cânt eu cyflawni yn y byd darlledu modern.

12. Mae gennym ddiddordeb, er enghraifft, yn yr hyn yr ydych yn ei werthfawrogi ynghylch:

- cyfraniad y BBC i'r broses ddemocrataidd, er enghraifft trwy gyfrwng y ddarpariaeth newyddion, materion cyfoes a dadlau gwleidyddol
- ei effaith ar addysg, er enghraifft trwy gyfrwng rhaglenni addysgiadol arbenigol ar y radio, ar y teledu ac ar-lein, gan gynnwys y cwricwlwm digidol a gynigir cyn bo hir, genres ehangach (ee rhaglenni dogfen, drama, adloniant, rhaglenni plant a chrefydd), a thrwy gyfrwng y cyfryngau printiedig, ar bob lefel – ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch a dysgu gydol oes
- ei rôl wrth gynorthwyo a hyrwyddo chwaraeon, trwy ddarlledu ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau
- ei nawdd i'r celfyddydau, gan gynnwys ffilm a noddi'r diwydiannau creadigol yn ehangach, er enghraifft trwy ei rôl fel prif gomisiynydd gwaith newydd
- ei effaith ar y sector darlledu, er enghraifft trwy hyfforddi'r diwydiant, gwella ansawdd, hybu iechyd cynhyrchwyr annibynnol ac fel ffynhonnell yr ymchwil a'r datblygiadau diweddaraf
- ei ddelwedd rhyngwladol, gan gynnwys World Service, ei wasanaethau ar-lein ar gyfer trigolion gwledydd tramor a'i wasanaethau masnachol a gynlluniwyd ar gyfer cynulleidfaoedd ac eithrio'r rhai yn y DU, ee BBC America
- ei rôl wrth feithrin cymunedau trwy gyfrwng gwasanaethau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, gwasanaethau a rhaglenni i leiafrifoedd, gan gynnwys rôl radio lleol
- ei rôl wrth gynorthwyo'r broses o fanteisio ar wasanaeth teledu digidol ac wrth helpu i weithredu'r broses drosglwyddo i wasanaethau digidol er lles dinasyddion a'r genedl gyfan

- unrhyw feysydd eraill lle y mae'r BBC yn gwneud cyfraniad pwysig
- a ddylid newid unrhyw rai o'r rhain yn y dyfodol.

13. Yn ogystal, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae'r BBC yn ychwanegu gwerth yn y meysydd hyn, yng nghyd-destun amgylchedd darlledu lle y mae sefydliadau eraill yn chwarae rhan fwyfwy pwysig – er enghraifft, mewn gwasanaethau newyddion 24 awr, ar y llwyfan rhyngwladol, mewn radio lleol i'r cenhedloedd a'r rhanbarthau ac wrth ddarlledu chwaraeon. A cheir cwestiwn pwysig ynghylch pa mor bell ddylai'r BBC fynd wrth ddarparu rhaglenni, megis rhaglenni adloniant, sy'n debyg i'r hyn a gynigir gan ddarlledwyr eraill. A oes ffurfiau adloniant penodol y dylai'r BBC eu darparu oherwydd bod darlledwyr eraill yn ei chael hi'n anos buddsoddi ynddynt? Ac os bydd y BBC yn parhau i ddarparu adloniant y brif ffrwd, pa effaith y bydd hyn yn ei gael ar weithredwyr masnachol, ac a ellir cyfiawnhau hyn trwy ystyried ansawdd yr hyn a welwn a'r hyn a glywn a'i effaith ar safonau ymhlith yr holl ddarlledwyr?

14. Yn olaf, mae'r BBC wedi nodi ei amcanion cyhoeddus ar gyfer cyfnod y Siarter mewn nifer o ddatganiadau polisi (gweler y bocs am fanylion). Hoffem glywed eich safbwyntiau ynghylch pa mor dda y mae'r BBC wedi cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y dogfennau hynny.

Datganiadau o amcanion cyhoeddus y BBC er 1992	
2000	Ymateb y BBC i adolygiad Davies o'r trefniadau i ariannu'r BBC yn y dyfodol
1998	*Pobl a rhaglenni*
1996	*Ymestyn y dewis yn yr oes ddigidol*
1993	Ymateb y BBC i Bapur Gwyrdd y Llywodraeth *Dyfodol y BBC*
1992	*Ymestyn dewis*

Cwestiynau allweddol

- **Beth yw'ch barn chi am gyfraniad y BBC tuag at fywyd yn y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach? A ddylai hyn newid dros y ddegawd nesaf ac os dylai, sut?**
- **Pa werth y mae'r BBC yn ei ychwanegu at ddarpariaeth ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus?**
- **Pa mor dda y mae'r BBC wedi cyflawni ei amcanion yn ystod cyfnod y Siarter? Pa dystiolaeth sydd gennym bod y ffordd y mae'r BBC yn gwneud hyn yn llwyddiannus o'i chymharu â darlledwyr eraill?**
- **Beth sy'n gwneud y BBC yn sefydliad unigryw? Sut mae sicrhau ei fod yn wahanol i ddarlledwyr eraill? A oes ffyrdd gwell o ddarparu rhywfaint o'r cyfraniad yr ydym wedi dibynnu ar y BBC i'w ddarparu yn draddodiadol?**
- **Pa mor dda y mae'r BBC yn gwasanaethu rhannau cyfansoddol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r rhanbarthau yn Lloegr? Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld?**
- **A yw'r cydbwysedd presennol rhwng rhaglennu cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol yn gywir?**
- **A yw'r cynnwys rhanbarthol a chymunedol presennol yn adlewyrchu amrywiaeth y rhanbarthau a'r cymunedau a wasanaethir, gan ddarparu'r hyn yr ydych yn ei ddymuno? Os na, beth ddylid ei newid?**

Tirlun sy'n newid

'Sut y dylai'r BBC ymaddasu i ymdopi â newidiadau mewn technoleg a diwylliant?'

15. Mae cyflymdra'r newid ar gynnydd. Mae technolegau newydd yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i'r farchnad yn gyflymach. Dros saith mlynedd yn unig yn ystod cyfnod y Siarter bresennol, rydym wedi gweld:

- nifer eang yn manteisio ar y rhyngwyd – ym mis Hydref 2003, roedd 50%[1] o gartrefi yn y DU yn manteisio arno, o'i gymharu ag amcangyfrif o llai na 4% ym 1996 a 9% ym 1998.

Y prif ffyrdd o gael rhaglenni teledu a radio

Daearol
Y dull traddodiadol o fanteisio ar wasanaethau teledu a radio. Mae trosglwyddyddion yn anfon signalau a dderbynnir gan erial. Gellir trosglwyddo signalau analog a digidol yn y modd hwn, ond rhaid i focs ar ben y set neu set deledu ddigidol integredig ddatgodio'r signalau digidol. Gellir manteisio ar wasanaethau radio digidol trwy gyfrwng set radio Digital Audio Broadcast (DAB) hefyd.

Cebl
Caiff gwasanaethau teledu eu trosglwyddo trwy wifren dan y ddaear rhwng y rhwydwaith cebl a'r cartref, a defnyddir bocs ar ben y set i fanteisio arnynt.

Lloeren
Trosglwyddir signalau teledu a throsglwyddiadau eraill yn uniongyrchol gan loeren ac mae antena arbennig ar ffurf dysgl yn eu derbyn. Mae bocs yn datgodio'r signalau digidol. Caiff rhai signalau digidol eu hamgryptio ac mae'n rhaid cael cerdyn gwylio er mwyn manteisio arnynt.

- cynnydd enfawr yn y gwasanaethau teledu a radio digidol a ddarperir trwy ddulliau trosglwyddo lloeren, cebl a daearol (gweler y bocs). Erbyn diwedd 2003, bydd bron i 50% o gartrefi'r DU yn manteisio ar deledu digidol mewn rhyw ffordd. Nid oedd unrhyw gartref yn manteisio ar deledu digidol o'r fath ym 1996. Erbyn diwedd mis Medi 2003, roedd 200,000 o radios digidol wedi cael eu gwerthu yn y DU. Ac, wrth i'r amgylchedd amlsianel ehangu, mae cyfran y gynulleidfa sy'n gwylio sianelau teledu y BBC (gweler y bocs) wedi gostwng – o oddeutu 45% ym 1996 i 35% heddiw – ffenomenon sydd wedi effeithio ar yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (er bod cyrhaeddiad cyfan gwasanaethau teledu a radio y BBC yn 92.7% yn 2002/03).

Cyfran a chyrhaeddiad

Cyfran y gynulleidfa yw cyfanswm y rhai sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglen neu sianel benodol, dros gyfnod penodol. Fe'i nodir fel canran o'r holl rai sy'n gwylio neu'n gwrando dros y cyfnod hwnnw.

Cyrhaeddiad y gynulleidfa yw canran y bobl sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglenni am gyfnod diffiniedig. Y cyfnod safonol yw tair munud olynol ar gyfer teledu, a phymtheg munud ar gyfer radio. Felly, os mai cyrhaeddiad un o sianelau teledu y BBC yn ystod wythnos benodol oedd 50%, mae'n golygu bod 50% o'r gwylwyr wedi gwylio'r rhaglen honno am o leiaf dair munud olynol.

[1] Swyddfa Ystadegau Gwladol

- daeth peiriannau DVD yn beiriannau cyffredin gan ddechrau herio safle'r peiriant fideo. Ar ddechrau 2003, roedd peiriannau DVD mewn oddeutu 25% o gartrefi'r DU. Disgwylir i'r ffigwr hwnnw godi i dros 35% erbyn diwedd 2003.

> Mae **Teledu Digidol** yn ffordd a gyflwynwyd yn ddiweddar o drosglwyddo'r lluniau a'r sain sy'n creu rhaglen deledu, ynghyd â gwasanaethau eraill fel testun a thechnoleg rhyngweithiol, i'r cartref. Mae'n well na'r system drosglwyddo 'analog' yr ydym wedi bod yn ei defnyddio ers bron i saith deg o flynyddoedd mewn nifer o ffyrdd.
> Gan bod y wybodaeth y mae ei hangen i greu'r rhaglen deledu yn cael ei 'chodio' mewn ffrwd ddigidol o rifau un a dim – yn yr un modd â chyfrifiadur – gall yr ansawdd technegol fod lawer yn well ac yn fwy cyson. Cywasgir y ffrwd ddigidol felly nid oes angen cymaint o sbectrwm arni, felly gall y lle yr oedd ei angen i drosglwyddo un sianel deledu analog yn unig yn y gorffennol, drosglwyddo nifer o raglenni digidol a gwasanaethau rhyngweithiol bellach. Mae hyn yn golygu y gall gwylwyr digidol fanteisio ar ddewis llawer yn ehangach o wasanaethau i'w gwylio.

- gostyngiadau enfawr yn y gost o storio data, gan alluogi storio ffilmiau cyfan a chynnwys arall, er enghraifft, ar gyfrifiadur yn y cartref.

> Cartrefi **amlsianel** sy'n gallu manteisio ar sianelau teledu lluosog ar wahân i BBC1, BBC2, ITV, Channel 4 neu S4C, Five a Theletestun, ar un set deledu.

- nifer sylweddol yn manteisio ar dechnoleg band llydan, gan alluogi darparu cynnwys a ddarlledir yn uniongyrchol i gyfrifiadur neu ddyfais debyg. Ym mis Hydref 2003, roedd dros 2.6 miliwn wedi tanysgrifio i wasanaeth band llydan yn y DU. Roedd y nifer yn ddibwys ym 1996.

> **Band llydan** – Ystod o dechnolegau llinell gosodedig, di-wifr a lloeren sy'n gallu trosglwyddo cynnwys rhyngweithiol, cymwysiadau a gwasanaethau ar raddfa gyfnewid uwch – gan alluogi, er enghraifft, gwasanaeth rhyngrwyd cyflym sydd 'ymlaen drwy'r amser'.

- dyfodiad recordio fideo personol (RFP), sef dyfeisiadau a fydd yn galluogi defnyddwyr i reoli'r hyn y maent yn ei wylio a phryd y maent yn ei wylio yn fwy.

16. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd technoleg yn newid fwy dros y deng mlynedd nesaf nag y mae wedi gwneud ers ffurfio'r BBC ym 1926.

17. Nid technoleg yn unig sy'n newid, ond diwylliant ac arfer hefyd – y ffordd y mae pobl yn defnyddio technoleg. Er enghraifft, mae mwy a mwy yn gwrando ar ddarllediadau radio dros y rhyngrwyd – yn wir, mae rhai darlledwyr, gan gynnwys y BBC, yn cynnig y cyfle i wrando ar raglenni radio ar wahanol adegau i'r darllediad gwreiddiol. Mae cynulleidfaoedd yn rheoli'r hyn a gânt a sut y maent yn ei gael yn fwy. Ac mae angen ystyried hyn oll yng nghyd-destun y ffaith bod Prydain yn newid yn y byd modern sydd ohoni.

Trosglwyddo i wasanaeth digidol

Ar hyn o bryd, trosglwyddir prif sianelau'r gwasanaeth cyhoeddus (BBC1, BBC2, ITV, Channel 4/S4C a Five) ar ffurf analog a digidol (gweler yr eirfa). O ganlyniad i gyfyngiadau technegol a chyfyngiadau eraill, dim ond oddeutu 75% o gartrefi sy'n gallu manteisio ar wasanaethau daearol digidol. Bydd diffodd trosglwyddiadau analog yn galluogi darlledwyr i gynnig gwasanaeth digidol daearol mwy, gan roi mwy o ddewis i ddefnyddwyr.

Bydd diffodd trosglwyddiadau analog yn rhyddhau sianelau ar gyfer gwasanaethau newydd a fydd o fudd i ddefnyddwyr a'r economi ac a fydd yn arwain at arbedion ariannol i ddarlledwyr yn y tymor hir.

Bydd trosglwyddo i wasanaeth digidol yn newid mawr, a bydd y goblygiadau i wylwyr a darlledwyr yn ogystal â chynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr teledu nad ydynt yn rhai domestig, yn sylweddol. Bydd angen i wylwyr osod offer a fydd yn gallu derbyn darllediadau digidol, boed hynny trwy system loeren, daearol neu gebl, er mwyn i bob teledu a pheiriant recordio fideo barhau i fanteisio ar y gwasanaethau ar eu cyfer.

I'r BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, bydd y broses drosglwyddo yn golygu troi'r rhwydwaith darlledu daearol presennol yn un digidol, ac ad-drefnu'r sianelau digidol sy'n bodoli eisoes. Bydd angen cynllunio'r broses drosglwyddo yn fanwl iawn a'i chyflwyno fesul rhanbarth. Disgwylir y bydd hyn yn cymryd o leiaf bedair blynedd ar ôl y dyddiad trosglwyddo cyntaf.

Ni fydd y broses drosglwyddo yn un llwyddiannus os na fydd y defnyddwyr yn barod. Ni fyddwn yn cyhoeddi amserlen nes byddwn yn fodlon bod pawb sy'n gallu manteisio ar brif sianelau'r gwasanaeth cyhoeddus mewn ffurf analog yn gallu eu cael ar ffurf digidol, a phan fyddwn yn fodlon bod teledu digidol yn ddewis fforddiadwy i'r mwyafrif helaeth.

18. Ddeng mlynedd i nawr, mae'n eithaf posibl y bydd pobl, er enghraifft, yn manteisio'n fawr ar ddyfeisiadau symudol i gael darllediadau, ac yn defnyddio technoleg recordio personol i bennu eu hamserlenni eu hunain i bob pwrpas. Ac mae hyn oll yng nghyd-destun ehangach y chwyldro darlledu mwyaf arwyddocaol efallai ers cyflwyno teledu lliw – diffodd y signal analog a symud i ddarlledu digidol – gweler y bocs am ragor o fanylion. Hoffem glywed safbwyntiau ynghylch y rôl a ddylai fod gan y BBC yn ystod y broses drosglwyddo i wasanaeth digidol.

19. Bydd yr holl newidiadau hyn – technoleg, diwylliant ac arfer, a'r trosglwyddo i wasanaeth digidol – yn ffactorau allweddol yn yr adolygiad o'r Siarter.

20. Felly mae'r Llywodraeth yn dymuno clywed safbwyntiau ynghylch y cyfleoedd y gallai amgylchedd darlledu sy'n newid, eu cynnig i'r BBC, ynghyd â'r bygythiadau posibl, a sut y bydd yn rhaid i'r BBC newid efallai er mwyn ymdopi â nhw.

Cwestiwn allweddol

- **Sut y dylai'r BBC ymateb i ddatblygiad technolegau newydd ac arferion gwylio a gwrando sy'n newid?**

Swyddogaethau a gwasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus

'Beth yw'ch barn chi am y gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein a ddarperir gan y BBC?'

21 Mae'r BBC yn darparu ystod o wasanaethau y telir amdanynt gan y drwydded deledu, gan gynnwys:

- Sianelau teledu - BBC1 a BBC2, BBC 3 a 4, CBeebies, CBBC, BBC News 24 a BBC Parliament
- Gwasanaethau radio – Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4, Radio Five Live, Five Live Sports Xtra, Radio 1 Xtra, BBC 6Music, BBC7 a BBC Asian Network, yn ogystal â 38 o orsafoedd radio lleol a chwech ar gyfer y cenhedloedd
- BBCi – gwasanaethau rhyngweithiol y BBC, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, testun rhyngweithiol a theledu digidol rhyngweithiol

Gwasanaethau teledu a radio y BBC sydd ar gael trwy system drosglwyddo analog a digidol

Mae rhai o wasanaethau'r BBC ar gael trwy systemau trosglwyddo analog a digidol. Mae eraill – gwasanaethau newydd y BBC – ar gael yn ddigidol yn unig.

Gwasanaeth	Analog	Digidol
Teledu		
BBC 1	✓	✓
BBC 2	✓	✓
BBC 3	✘	✓
BBC 4	✘	✓
CBBC	✘	✓
CBeebies	✘	✓
BBC News 24	✓	✓
BBC Parliament	✓	✓
Radio		
Radio 1	✓	✓
Radio 1 Xtra	✘	✓
Radio 2	✓	✓
Radio 3	✓	✓
Radio 4	✓	✓
Radio Five Live	✓	✓
Five Live Sports Xtra	✘	✓
BBC 6 Music	✘	✓
BBC 7	✘	✓
BBC Asian Network	✘	✓
BBC World Service	✘	✓

Sylwer Mae BBC News 24 a BBC Parliament ar gael trwy system gebl analog ar hyn o bryd. Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu BBC 3, BBC 4, CBBC a CBeebies trwy'r cyfrwng hwn cyn bo hir.

- Gwasanaethau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau – BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a BBC English Regions

  Yn ogystal, ariennir BBC World Service gan gymorth grant a weinyddir gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

22. Gan ystyried y cefndir hwn, mae'r Llywodraeth yn dymuno clywed safbwyntiau ynghylch gwasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus, gan gynnwys World Service. I helpu gyda'r ymatebion, rydym wedi darparu rhestr lawn o wasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus fel Atodiad i'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r rhestr yn cynnwys cylch gorchwyl pob gwasanaeth, fel y'i cyhoeddwyd yn Natganiadau Polisi Rhaglenni'r BBC 2003/2004 (www.bbc.co.uk/info/statements2003), y gwariant ar bob gwasanaeth[2], a chyfran y gynulleidfa[3], pan fo hynny'n berthnasol. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich safbwyntiau ynghylch pa mor dda y mae gwasanaethau unigol y BBC yn bodloni eu cylch gorchwyl a gyhoeddwyd a pha mor dda y maent, gyda'i gilydd, yn cyflawni amcanion y BBC.

23. Yn ogystal, hoffem archwilio a yw cydbwysedd, ystod, maint a chwmpas y gwasanaethau gyda'i gilydd yn gywir er mwyn cyflawni rôl y BBC yn y dyfodol a darparu'r lefel gwasanaeth y mae'r cyhoedd yn ei disgwyl. Er enghraifft, mae gennym ddiddordeb mewn ystyried a ddylai'r BBC barhau i ddarparu cymysgedd o genres – 'rhywbeth i bawb' – sydd wedi bod yn egwyddor sylfaenol yn allbwn y BBC ers ei sefydlu. Adlewyrchir hyn yn y ddarpariaeth bresennol o amrediad eang o raglenni, o fyd addysg i adloniant, drama i raglenni dogfen, chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant, rhaglenni plant a chrefydd. Ar y llaw arall, mae rhai'n dadlau y dylai'r BBC lenwi'r bylchau a adewir gan ddarlledwyr masnachol. Mae goblygiadau pellgyrhaeddol i'r atebion i'r cwestiynau hyn, gan gynnwys:

    - graddfa a chost gweithgareddau'r BBC
    - effaith y BBC ar y farchnad ddarlledu yn gyffredinol ac ar ei gystadleuwyr unigol
    - ansawdd y rhaglenni sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd
    - cyfraniad y BBC at gymdeithas

    A byddant oll yn cael eu heffeithio gan dechnoleg, diwylliant ac arfer sy'n newid, a chan y trosglwyddo i wasanaeth digidol.

24. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed am fanteision gwasanaethau megis is-deitlo a disgrifio clywedol hefyd (gweler y bocs am ragor o fanylion), a gynlluniwyd i helpu'r BBC i gyflawni ei ddyletswydd arbennig i sicrhau bod pobl ddall a'r rhai sy'n wan eu golwg, a'r rhai sy'n fyddar neu sy'n drwm eu clyw, yn gallu mwynhau ei raglenni hefyd.

Disgrifio clywedol

Mae nifer o bobl sydd â nam ar eu golwg yn cael llawer o wybodaeth ac adloniant trwy gyfrwng y teledu. Fodd bynnag, mae adegau yn ystod y rhan fwyaf o raglenni lle y gallai'r gweithgarwch yn y llun beri penbleth (ee yn ystod helfa mewn drama gyffrous) neu pan geir cyswllt cynnil rhwng cymeriadau mewn drama, y gallai'r gwyliwr sydd â nam ar ei olwg/golwg eu colli.

[2] Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC 2003-4
[3] BARB Medi 2003

Cwestiynau allweddol

- **Beth yw'ch barn chi am y gwasanaethau a ddarperir gan y BBC ac a ariennir gan arian cyhoeddus, ar y teledu, y radio ac ar-lein? Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld?**
- **Pa mor dda y mae gwasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus yn cyflawni ei amcanion craidd?**
- **Ym mha ffordd y dylai gwasanaethau'r BBC fod yn wahanol i wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a darlledwyr masnachol eraill er mwyn ychwanegu gwerth? I ba raddau y dylai'r BBC ddarparu 'rhywbeth i bawb'?**

Gwasanaethau masnachol

'A ddylai'r BBC redeg gwasanaethau masnachol?'

25. Ers ei sefydlu fel y Cwmni Darlledu Prydeinig, mae'r BBC wedi ymgymryd â gweithgareddau masnachol. Er enghraifft, mae'n cyhoeddi cylchgronau megis Radio Times a chylchgrawn Top of the Pops, mae'n gwerthu DVDs a llyfrau sain ac mae'n cyfranogi mewn mentrau ar y cyd megis UK Gold. Mae'r Siarter yn galluogi'r BBC i fanteisio ar ei asedau'n fasnachol mewn marchnadoedd eilaidd, ond mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dan y Siarter ar gyfer rhai o weithgareddau masnachol y BBC. Ni ddylai gweithgareddau masnachol ddefnyddio na pheryglu unrhyw gronfeydd cyhoeddus.

26. BBC Worldwide yw prif is-gwmni masnachol y BBC, a sicrhaodd incwm o £123 miliwn i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn ystod 2002/2003 trwy hyrwyddo rhaglenni a chynnwys y BBC. Fel rhan o drefniant ffi'r drwydded yn 2000, roedd disgwyl i'r BBC sicrhau cynnydd yn ei refeniw masnachol. Mae hyn yn golygu y gellir sicrhau mwy o werth o lwyddiannau'r BBC, megis y Teletubbies, a'i ail-fuddsoddi mewn creu rhaglenni. O ganlyniad, gellir gwario mwy ar wasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus heb orfod codi ffi'r drwydded o reidrwydd. Mae rhai'n dadlau, fodd bynnag, bod gweithgareddau masnachol y BBC yn atal ei gystadleuwyr rhag buddsoddi mewn gweithgareddau newydd a bod y DU cyfan yn dioddef yn y pen draw.

27. Un o brif egwyddorion polisi masnachol y BBC yw y dylai fasnachu'n deg. Cynlluniwyd canllawiau polisi masnachol ac ymrwymiad masnachu teg y BBC, a luniwyd ac a weithredwyd gan Lywodraethwyr y BBC, i sicrhau bod gweithgareddau masnachol yn y BBC yn cydymffurfio â chyfraith gystadlu, gan gynorthwyo amcan craidd y BBC o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ac nad ydynt yn cynnwys traws-gymorthdaliadau o gronfeydd cyhoeddus. Os hoffech ragor o wybodaeth am Ganllawiau'r Polisi Masnachol a'r Ymrwymiad Masnachu Teg, trowch at www.bbc.co.uk/info/policies/commercial_guides.

28. Hoffai'r Llywodraeth glywed safbwyntiau ynghylch gwasanaethau masnachol y BBC, eu heffaith ar y marchnadoedd darlledu a marchnadoedd ehangach y cyfryngau, a'r materion cysylltiedig yng nghanllawiau ei bolisi masnachol a'i ymrwymiad i fasnachu teg.

29. I helpu pobl gyda'u hymatebion, rydym wedi darparu rhestr lawn o wasanaethau masnachol y BBC fel Atodiad i'r ddogfen ymgynghori hon.

Cwestiynau allweddol

- **Yn eich barn chi, a ddylai'r BBC barhau i redeg gwasanaethau masnachol ar y cyd â'i wasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus?**
- **Os dylai'r BBC barhau i redeg gwasanaethau masnachol, sut y dylem sicrhau bod y berthynas rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol yn un deg i gystadleuwyr masnachol y BBC?**
- **A ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar weithgareddau masnachol y BBC ac os dylid, beth ddylai'r cyfyngiadau hynny fod?**

Talu am y BBC

'Sut y dylem dalu am y BBC?'

30. Prif ffynhonnell ariannol y BBC yw ffi'r drwydded deledu. Mae angen cael trwydded deledu i osod neu ddefnyddio derbynnydd teledu i gael unrhyw wasanaeth rhaglenni teledu. Yr egwyddor sy'n sail i'r trefniadau hyn yw y dylai'r holl wylwyr, pa sianelau bynnag y maent yn eu gwylio, ariannu'r BBC. Ariennir BBC World Service gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad oherwydd cydnabyddir nad yw'n iawn bod y rhai sy'n talu'r drwydded yn talu am hwn.

31. Ar hyn o bryd, codir £116 am drwydded teledu lliw a £38.50 am drwydded teledu du a gwyn. Bydd y ffioedd yn codi i £121 am deledu lliw a £40.50 am deledu du a gwyn ar 1 Ebrill 2004. Mae'r cynnydd hwn yn dynodi 5ed flwyddyn mewn trefniant ariannu ar gyfer blynyddoedd 2000/01 i 2006/07 a gyflwynwyd gan y Llywodraeth er mwyn ymateb i adroddiad Gorffennaf 1999 y panel adolygu annibynnol ynghylch ariannu'r BBC yn y dyfodol dan gadeiryddiaeth Gavyn Davies (Adroddiad Davies). Dan y trefniant hwn, bydd ffioedd y drwydded deledu yn codi 1.5% y flwyddyn uwchlaw chwyddiant, a fesurir gan y Mynegrif Prisiau Adwerthol (MPA). Cynlluniwyd y cynnydd i alluogi'r BBC i ddarparu amserlen gadarn ac arbennig o raglenni o ansawdd uchel, a pharhau i fod ar y blaen o ran technoleg ddarlledu. Mae'r trefniant yn cynnwys gofyniad i'r Gorfforaeth godi oddeutu £1.1 biliwn trwy gyfrwng arbedion effeithlonrwydd a chodi'r incwm dros yr un cyfnod.

32. Mae'r drwydded deledu i bobl 75 oed a throsodd yn rhad ac am ddim, a thelir am hyn o gronfeydd cyhoeddus. Gall pensiynwyr a phobl anabl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio a phreswyl ac mewn rhai mathau o gartrefi gwarchodol, hawlio gostyngiad o £5 ar ffi'r drwydded a chaiff y rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall, ostyngiad o 50%. Telir am y gostyngiadau hyn gan arian ffi'r drwydded. Yn ogystal, mae trefniadau arbennig ar gael ar gyfer gwestyau a safleoedd lletygarwch, lle y telir ffi un drwydded am y bymtheg ystafell neu uned gyntaf sy'n cynnwys teledu, a ffi bellach ar gyfer pob pum uned ychwanegol sy'n cynnwys teledu.

33. Roedd refeniw cyfan gwbl y BBC o ffi'r drwydded yn ystod 2002-03 yn werth £2,658 miliwn, gan gynnwys £371 miliwn ar gyfer trwyddedau teledu yn rhad ac am ddim i'r rhai dros 75 oed.

34. Roedd y ffynonellau ariannol ychwanegol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU yn ystod 2002-03 fel a ganlyn:

Ffynhonnell	**Cyfanswm (£miliwn)**
Busnesau masnachol y BBC	147
Y Brifysgol Agored	0.1
Arall[4]	22.6
Cyfanswm	**169.7**

[4] Mae incwm arall yn cynnwys darparu cynnwys a gwasanaethau i ddarlledwyr tramor, tocynnau cyngherddau a werthwyd a manteisio ar yr archif rhaglenni

35. Rydym wedi cael dadl hir iawn ynghylch y ffordd o dalu am y BBC. Cynigiwyd ac archwiliwyd ystod eang o fodelau ariannu (gweler y bocs am fanylion pellach). Hyd yn hyn, daethpwyd i'r casgliad bob tro mai ffi'r drwydded yw'r ateb gorau, er nad yw'n ateb perffaith. Fodd bynnag, fel yr argymhellwyd yn adroddiad Davies, bydd yr adolygiad hwn o'r Siarter yn ystyried y mater o'r newydd yng nghyd-destun yr amgylchedd a'r dechnoleg sy'n newid. Mae'r Llywodraeth yn croesawu safbwyntiau, a bydd yn ystyried unrhyw ddewisiadau a ddaw i'r amlwg yn fanwl.

Rhai dewisiadau ariannu amgen

Ystyriodd adolygiad Davies nifer o ddewisiadau amgen er mwyn talu am y BBC. Nid ystyriwyd bod unrhyw un ohonynt yn cynnig ateb gwell na ffi'r drwydded dan yr amodau yn ystod cyfnod y Siarter. Derbyniodd y Llywodraeth fod casgliadau adolygiad Davies yn gywir yn y meysydd hyn yn ystod y cyfnod a archwiliwyd gan yr adolygiad. Hoffem ystyried a ydynt yn ddilys nawr ac a fyddant yn ddilys yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddewisiadau eraill y dylem eu hystyried.

Ariannu uniongyrchol

Ystyriodd adolygiad Davies y posibilrwydd o **ariannu uniongyrchol,** naill ai trwy'r system drethu gyffredinol neu drwy gyfrwng grant, a systemau **ariannu cymysg**. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod ariannu uniongyrchol wedi tueddu i greu darlledwyr yr oedd cyswllt anorfod rhyngddynt a hinsawdd wleidyddol, ac a oedd â'r potensial i golli annibyniaeth olygyddol neu reoli, ac roedd ariannu cymysg yn tanseilio egwyddor ariannu annibynnol a sefydlog, a byddai'n agored i niwed gan ostyngiadau mewn ariannu gorfodol neu a fyddai'n arwain at ei drawsnewid yn ddarlledwr masnachol llawn yn y pen draw.

Hysbysebu

Er bod adolygiad Davies wedi barnu y byddai'r symiau a fyddai'n cael eu codi trwy hysbysebu ar y BBC yn enfawr, daeth i'r casgliad na fyddai cyflwyno trefniadau hysbysebu yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC yn ddymunol nac yn ymarferol, am y rhesymau canlynol:

- Byddai'n debygol o newid ystod ac ansawdd rhaglenni'r BBC
- Gallai pwysau masnachol fygwth rhyddid ac annibyniaeth y rhai sy'n cynhyrchu rhaglenni ac amserlenni
- Byddai hysbysebu yn ystod rhaglenni'r BBC yn amharu ar gynnwys rhaglenni, gan leihau boddhad gwylwyr
- Byddai'n lleihau refeniw hysbysebu Channel 4 a darpar wasanaethau teledu masnachol, a'r wasg
- Bydd hysbysebu yn ffynhonnell incwm llai sicr wrth i nifer y gwasanaethau sy'n cystadlu yn ei erbyn godi
- Mewn nifer o wledydd Ewropeaidd, mae dibyniaeth darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar hysbysebu wedi arwain at frwydrau am gynulleidfaoedd, cynulleidfaoedd sy'n gostwng a llai o refeniw, a cheir tystiolaeth o gydberthynas niweidiol rhwng hysbysebu a chyfran yr allbwn sy'n cael ei neilltuo i raglenni ffeithiol, rhaglenni plant a rhaglenni diwylliannol
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai hysbysebu yn arwain at gwynion gan ddarlledwyr masnachol ac y byddai'n codi cwestiynau rheoliadol ynghylch cyfreithlondeb ariannu cyhoeddus

Nawdd
Mae nawdd yn fath o hysbysebu a gyfyngir i ddatganiad mewn rhaglen a ariennir gan sefydliad penodol. Canfu adolygiad Davies y byddai nawdd yn llai ymwthiol na hysbysebu, ond ni wnaeth ei argymell am y rhesymau canlynol:

- Mae perygl y byddai incwm o noddi rhaglenni yn newid cydbwysedd rhaglenni'r BBC, gan roi pwysau ar y BBC i gynhyrchu mwy o raglenni sy'n ddeniadol i noddwyr
- Ni fyddai'n debygol o ddarparu digon o refeniw i ariannu mwy na chyfran fach o raglenni, gan dalu ychydig iawn yn unig o gostau'r BBC o greu rhaglenni
- Mae'n anochel y byddai'n tynnu refeniw hysbysebu neu nawdd oddi ar Channel 4 a darlledwyr masnachol, neu'r celfyddydau neu ddigwyddiadau eraill a noddir
- Gallai nawdd fod yn ddull anaddas o ariannu rhai mathau o raglenni – er enghraifft, newyddion a materion cyfoes a rhaglenni addysg

Tanysgrifio
Canfu adolygiad Davies y gallai tanysgrifio ddigwydd ar sawl ffurf, gan amrywio o un ffi am rai o wasanaethau'r BBC i dalu am wylio rhaglenni unigol. Roedd yn nodi'r hyn a oedd yn anfanteision tanysgrifio yn ei farn ef:

- Byddai ar gael i'r rhai sy'n fodlon talu yn unig ac felly, byddai'n negyddu amcan cyhoeddus sylfaenol gwasanaethau rhad ac am ddim a gwasanaeth gyffredinol i'r genedl gyfan
- Pe bai rhaglenni neu wasanaethau'n cael eu hamgryptio i sicrhau bod y ffi danysgrifio yn cael ei thalu, byddai hyn yn perswadio pobl i beidio samplu ystod eang o raglenni, a gallai leihau nifer y rhaglenni a fyddai ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu talu cymaint
- Byddai cymhelliad ariannol i'r BBC gynnig ei raglenni gorau ar sianelau y byddai'n rhaid talu amdanynt, neu raglenni unigol ar sianelau y byddai'n rhaid talu amdanynt, a byddai hyn yn tanseilio syniad ffi'r drwydded ymhellach

36. Nid ydym yn bwriadu ystyried **lefel** ariannu'r BBC yn fanwl nes y bydd casgliadau adolygiad y Siarter yn eglur. Mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny ar ôl inni benderfynu ar ffurf a chwmpas gweithgareddau'r BBC.

Cwestiynau allweddol

- **Ai ffi'r drwydded yw'r ffordd orau o dalu am wasanaethau cyhoeddus y BBC o hyd?**
- **Os na, pa ddewisiadau amgen yr hoffech eu gweld yn cael eu harchwilio?**
- **A yw'r BBC yn sicrhau gwerth am arian?**
- **Ai cymorth grant trwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yw'r ffordd orau o dalu am BBC World Service o hyd?**

Trefniadaeth ac isadeiledd

'A yw'r BBC wedi'i drefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon?'

37. Ni waeth beth fo'r pecyn gwasanaethau a swyddogaethau a ddarperir gan y BBC, mae nifer o ffyrdd y gellir trefnu'r Gorfforaeth i'w darparu. Gallai un ffordd eithafol olygu sefydliad craidd bach iawn sy'n comisiynu ei holl raglenni a'i wasanaethau bron o ffynonellau allanol. Ar y pen arall, gallai olygu corff llawer yn fwy sy'n defnyddio adnoddau mewnol i gyflawni ei holl weithgareddau. Mae'n debygol y bydd nifer o amrywiadau o ran graddfa, ffurf a chymhlethdod rhwng dau ben y sbectrwm hwn.

38. Ar hyn o bryd, ceir cymysgedd o gynhyrchu mewnol a chomisiynu allanol, gan amrywio o wasanaeth i wasanaeth. Er enghraifft, er 1990 bu'n rhaid i'r BBC gomisiynu 25% o'i allbwn teledu gan gynhyrchwyr annibynnol ac mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn gwneud darpariaeth i gwota o'r fath barhau. Ni cheir cwota statudol ar gyfer radio ond ym 1991, pennodd y BBC darged gwirfoddol i gomisiynu 10% o'i allbwn radio ar gyfer ei rwydweithiau radio analog gan gynhyrchwyr annibynnol. Mewn gwirionedd, comisiynir oddeutu 13% o'i allbwn gan gynhyrchwyr annibynnol.

39. Hoffai'r Llywodraeth glywed safbwyntiau ynghylch y ffordd orau o drefnu'r BBC er mwyn trefnu adnoddau'r BBC i ddarparu'r gwasanaethau a'r swyddogaethau y mae'r cyhoedd yn eu dymuno ac yn eu disgwyl. Mae'n estyn gwahoddiad am sylwadau ar draws amrediad cyfan y materion – er enghraifft:

- manteision ac anfanteision un sefydliad sy'n darparu teledu, radio a gwasanaethau ar-lein
- cyfrifoldebau'r BBC fel cyflogwr a'i rôl yn ymwneud â hyfforddi cenhedlaeth nesaf y diwydiant darlledu – gan gynnwys ei staff ei hun a phobl mewn sefydliadau eraill, ei rôl wrth feithrin talent newydd a bod yn storfa arbenigedd darlledu cenedlaethol
- rôl y BBC fel comisiynydd rhaglenni, ffilmiau, cerddoriaeth a ffurfiau eraill o allbwn creadigol, a'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau mewnol a'r rhai a gomisiynir gan ddarparwyr allanol
- y ffordd y caiff ystad y BBC ei thrin, gan gynnwys ei strategaeth eiddo – ei raglen adeiladu ac adnewyddu – a lleoliad ei weithrediadau
- ei rôl ym maes ymchwil a datblygiad, yn enwedig o ystyried y cefndir sef amgylchedd technolegol sy'n newid yn gyflym. Er enghraifft, ystyrir bod cyfleuster ymchwil y BBC yn Kingswood Warren ar y blaen ym maes technoleg ddarlledu, ac mae wedi cyfrannu at nifer o'r technegau pwysicaf a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cwestiynau allweddol

- **Sut y dylid trefnu'r BBC i gyflawni ei swyddogaethau a'i wasanaethau? A ddylai barhau i weithredu fel un sefydliad?**
- **A yw'r BBC yn darlledu'r cydbwysedd cywir o ran cynyrchiadau mewnol a'r rhai a gynhyrchir yn annibynnol? Pa mor bwysig yw hi i'r BBC wneud rhaglenni yn ogystal â'u comisiynu?**
- **Sut y dylem sicrhau bod y BBC yn parhau i feithrin talent ddarlledu o safon byd?**

Llywodraethu, rheoleiddio a chyfansoddiad

'Sut y dylid llywodraethu a rheoleiddio'r BBC?'

40. Er 1 Ionawr 1927, darparwyd ar gyfer bodolaeth y BBC fel corfforaeth gyhoeddus gan Siarter Frenhinol, ac mae'r drefn honno'n parhau hyd heddiw. Mae'r Siarter yn nodi amcanion y BBC yn fras ac yn pennu ei rym a'i gyfrifoldebau, gan gynnwys, er enghraifft, ei rym i gaffael, cadw a gwaredu eiddo. Mae'n gofyn i'r BBC bennu strwythurau i sicrhau bod safbwyntiau pobl yng Nghymru, yn yr Alban, yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhanbarthau Lloegr yn cael eu clywed. Yn fyr, mae'r Siarter yn galluogi'r BBC i weithredu a chyflawni swyddogaethau dros gyfnod penodol.

41. Cynorthwyir y Siarter gan Gytundeb, sy'n diffinio ystod y gwasanaethau y mae'r BBC yn gyfrifol am eu darparu ac amodau'r ddarpariaeth. I bob pwrpas, mae'n gontract rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ran y Llywodraeth.

42. Mae'r Siarter yn darparu ar gyfer penodi Llywodraethwyr y BBC – deuddeg ar hyn o bryd – gan y Goron. Rhestrir rhai o bwerau a dyletswyddau'r Llywodraethwyr i bennu amcanion ac addewidion eglur ar gyfer gwasanaethau'r BBC a monitro pa mor bell y cânt eu bodloni; sicrhau bod y BBC yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli er budd y cyhoedd a'i fod yn atebol i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded a'r Senedd; sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i Siarter, ei Gytundeb ac unrhyw ofynion rheoliadol eraill; sicrhau bod y BBC yn ufuddhau i'r gyfraith ac yn cynnal safonau uchel. Maent hefyd yn cynnwys y ddyletswydd i ymgynghori â'r Cynghorau Darlledu Cenedlaethol ynghylch anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

43. Mae'r dull o lywodraethu'r BBC wedi newid dros y degawdau, wrth i Siarterau dilynol gyflwyno gofynion newydd ac wrth i'r BBC wella'i systemau atebolrwydd. Er enghraifft, cyflwynodd Siarter 1996 ddyletswyddau i'r BBC ymgynghori â'r cyhoedd a cheisio sicrhau cymeradwyaeth y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer y Cynghorau Darlledu Cenedlaethol.

44. Gweithredwyd nifer o fesurau o ran bod yn agored, masnachu teg ac atebolrwydd fel rhan o drefniant ffi'r drwydded ym mis Chwefror 2000, gyda'r nod o sicrhau bod y BBC yn cael ei archwilio'n allanol lawer yn fwy. Er enghraifft, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon rôl rheoleiddio wrth gymeradwyo gwasanaethau newydd y BBC a ariennir gan arian cyhoeddus a rhai gwasanaethau masnachol. Cyhoeddwyd y meini prawf asesu a ddefnyddir yn y broses gymeradwyo.

45. Mae'r BBC wedi cyflwyno newidiadau i'w drefniadau llywodraethu mewnol (*Llywodraethu yn Oes Ofcom*, Chwefror 2002) er mwyn paratoi ar gyfer rôl Llywodraethwyr y BBC yn y fframwaith rheoleiddio cyffredin a nodir yn y Ddeddf Gyfathrebu a Chytundeb y BBC. Mae'r newidiadau'n cynnwys portreadu swyddogaethau'r Llywodraethwyr a'r Pwyllgor Gweithredol a natur y gwaith a wneir gan y ddau gorff, yn fwy eglur.

46. Dan amodau Deddf Cyfathrebu 2003 a diwygiadau cysylltiedig i Gytundeb y BBC, cedwir cyfrifoldebau craidd Llywodraethwyr y BBC. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf nifer o ofynion allanol newydd, a fydd yn cael eu monitro a'u gorfodi gan Ofcom. Maent yn cynnwys cwotâu ar

gyfer cynyrchiadau annibynnol, y rhan fwyaf o safonau codau rhaglenni, ee chwaeth a gwedduster, lefel isaf bosibl y cynhyrchiadau gwreiddiol, rhaglenni a gynhyrchir yn rhanbarthol,

47. Mae gan Lywodraethwyr y BBC rôl ddeuol i oruchwylio'n strategol ar y naill law, gan weithredu'n effeithiol fel Cyfarwyddwyr Anweithredol, a rheoleiddio'r Gorfforaeth er budd y cyhoedd ar y llaw arall. Gofynnir am sylwadau ynghylch a yw'r trefniadau hyn yn parhau i fod yn briodol. A ydynt, er enghraifft, yn rhoi'r BBC yn y sefyllfa orau i gyflawni ei ymrwymiadau i'w gynulleidfaoedd, gan ddiogelu ei nerth a'i annibyniaeth ar y Llywodraeth ar yr un pryd?

48. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn dymuno archwilio'r mecanweithiau a fydd yn galluogi gweithredu dyletswyddau, cyfrifoldebau a phwerau yn y ffordd orau, ni waeth pa fodel llywodraethu bynnag a ddefnyddir. Gallai hyn gynnwys archwilio graddau priodol y gwahaniad rhwng y Llywodraethwyr a'r ffordd y rheolir y BBC, a sut y caiff codau ymarferol megis y canllawiau i gynhyrchwyr – sy'n nodi'r safonau a'r egwyddorion golygyddol i'w dilyn gan wneuthurwyr rhaglenni ynghylch meysydd megis didueddrwydd, cywirdeb, tegwch, annibyniaeth olygyddol a safonau priodol o rhan chwaeth a gwedduster – eu gorfodi.

Cywirdeb a didueddrwydd

Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn pennu mai Ofcom sy'n gyfrifol am reoli'r codau y mae'n rhaid i bob darlledwr, gan gynnwys y BBC, eu dilyn. Mae'r codau hyn yn llywodraethu safonau hysbysebu a rhaglennu cyffredinol, yn ogystal â meysydd mwy arbenigol sy'n ymwneud â thegwch i unigolion, preifatrwydd, nawdd, cywirdeb a didueddrwydd. Fodd bynnag, yn achos y BBC, bydd y cyfrifoldeb dros reoleiddio cywirdeb a didueddrwydd yn parhau i fod yn fater i Lywodraethwyr y BBC yn unig. Bydd y Llywodraethwyr yn parhau i weithredu eu cyfrifoldebau dan y Siarter a'r Cytundeb dros sicrhau:

- bod rhaglenni'n cynnwys 'sylw cynhwysfawr, awdurdodol a diduedd i'r newyddion a'r materion cyfoes yn y Deyrnas Unedig ac ym mhob cwr o'r byd er mwyn cynorthwyo trafodaeth deg a chytbwys yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol'.
- bod y BBC yn trin pynciau dadleuol mewn ffordd 'gywir a diduedd briodol, yng ngwasanaethau newyddion y Gorfforaeth ac ym maes mwy cyffredinol rhaglenni sy'n delio â pholisi cyhoeddus neu bynciau llosg diwydiannol neu wleidyddol'.

Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Canllawiau i Gynhyrchwyr – cod moeseg y mae'n rhaid i unrhyw un sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y BBC ei ystyried, yn aml trwy ymrwymiad cytundebol. Gallwch weld y Canllawiau i Gynhyrchwyr trwy droi at www.bbc.co.uk/info/policies/producer_guides.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio cywirdeb a didueddrwydd yr holl ddarlledwyr eraill.

49. Yn ogystal, hoffem wybod ai Siarter Frenhinol y BBC a'r Cytundeb ategol yw'r sylfaen orau o hyd i fodolaeth y BBC wrth i ni symud i'r unfed ganrif ar hugain. Hefyd, ystyrir y ffordd y penodir Llywodraethwyr a'r ffordd orau o roi llais cryf i bobl sy'n byw yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

Cwestiynau allweddol

- **Yn eich barn chi, a cheir y cydbwysedd cywir rhwng y Llywodraethwyr ac Ofcom yn y ffordd y caiff y BBC ei reoleiddio?**
- **Ai Siarter Frenhinol yw'r sail fwyaf priodol o hyd ar gyfer sefydliad y BBC?**

Atebolrwydd

'Sut mae sicrhau bod y BBC yn atebol i'r cyhoedd a'r Senedd yn y ffordd gywir?'

50. Mae angen mecanweithiau effeithiol arnom i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei addewidion a'i ymrwymiadau, a chynnal ei gryfder a'i annibyniaeth o'r Llywodraeth ar yr un pryd.

51. Adlewyrchir atebolrwydd y BBC i'r Senedd trwy'r Siarter Frenhinol yn bennaf – a wneir dan y Frenhinfraint – a Chytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ran y Llywodraeth. Er na cheir gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, bydd y Senedd yn trafod y Siarter Frenhinol a'r Cytundeb cyn y byddant yn dod i rym. Yn ogystal, dan y Siarter, rhaid cyflwyno Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u cyflwyno gerbron y Senedd. Mae'r BBC yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfyngau a Chwaraeon hefyd. Cyflwynir Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC i'r Pwyllgor Dethol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon er mwyn i Aelodau Seneddol eu harchwilio cyn y byddant ar gael i'r cyhoedd.

52. Yn achos BBC World Service, er ei fod yn parhau i fod yn annibynnol yn olygyddol ac o ran y ffordd y caiff ei reoli, mae'r ffaith ei fod yn cael ei ariannu gan gymorth grant gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn golygu ei fod yn atebol i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad o ran ei wariant yn erbyn targedau'n ymwneud â pherfformiad. Am y rheswm hwn, mae Pwyllgor Materion Tramor Tŷ'r Cyffredin yn ei archwilio.

53. Yn ogystal, mae'r BBC yn atebol i Swyddfa'r Archwiliad Cenedlaethol (SAC) – sefydliad sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac sy'n archwilio'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario, ar ran y Senedd – a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin o ran gwerth am arian y trefniadau i gasglu a gorfodi system y drwydded deledu – er nad ar gyfer sicrhau gwerth am arian ar draws ei weithgareddau'n gyffredinol. Yn dilyn trafodaethau ynghylch Deddf Gyfathrebu 2003, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r berthynas gyda'r Senedd a'r Llywodraeth gan gynnwys ystyried rôl SAC (gweler y bocs).

54. O ran y cyhoedd, mae'r Datganiadau Polisi Rhaglennu a gyhoeddir gan y BBC yn nodi amcanion pob gwasanaeth. Mae'r BBC yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y Datganiadau hyn yn rheolaidd ac ynghylch a yw'r BBC yn cyflawni'r addewidion ynddynt. Gallwch gael gwybod mwy am y Datganiadau Polisi Rhaglennu trwy droi at www.bbc.co.uk/info/statements2003.

55. Hefyd, penodir y Cynghorau (Cynghorau Darlledu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r Cynghorau Ymgynghorol Rhanbarthol) gan y Llywodraethwyr i'w cynghori ar amcanion gwasanaethau a rhaglenni Cenhedloedd a Rhanbarthau'r BBC a Gwasanaethau Rhwydwaith y BBC, ac er mwyn monitro a yw'r BBC yn eu cyflawni. Adlewyrchir eu safbwyntiau yn Adolygiadau Blynyddol BBC Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Rhanbarthau yn Lloegr.

56. Cynhelir fforymau newydd a fydd yn cynnwys aelodau'r Cynghorau Ymgynghorol i geisio safbwyntiau grwpiau diddordeb arbennig ynghylch materion megis hil, rhyw ac anabledd.

57. Mae Grŵp Ymgynghorol y Llywodraethwyr ar gyfer World Service wedi darparu adolygiad annibynnol i'r Llywodraethwyr ynghylch ystod ac ansawdd BBC World Service ac mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Crefyddol Canolog yn cynghori'r BBC ar raglenni a pholisi darlledu crefyddol.

Sut y gall SAC archwilio'r BBC

Hyd yn hyn, mae Swyddfa'r Archwiliad Cenedlaethol (SAC) wedi llwyddo i archwilio gwerth am arian gweithgareddau'r BBC wrth gasglu ffi'r drwydded deledu, ond nid yw wedi ystyried y ffordd y mae'r Gorfforaeth yn gwario refeniw ffi'r drwydded. Fodd bynnag, yn ystod y broses o basio'r Ddeddf Gyfathrebu, derbyniodd y Llywodraeth gynnig a wnaethpwyd gan Arglwydd Sharman, a gynlluniwyd i gynnig sicrwydd pellach i'r Llywodraeth ynghylch gwerth am arian gweithrediadau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded, gan ddiogelu annibyniaeth golygyddol y Gorfforaeth a diogelu sefyllfa Pwyllgor Archwilio'r BBC.

Cyflwynir y trefniadau newydd trwy wneud newidiadau i Gytundeb y BBC, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn i gyd-fynd â gweithredu'r Ddeddf Gyfathrebu. Bydd y nodweddion allweddol fel a ganlyn:

- Yn dilyn deialog rhwng Pwyllgor Archwilio'r BBC a'r Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol, bydd y Pwyllgor yn pennu rhaglen o adolygiadau. Bydd adolygiadau unigol yn cael eu neilltuo ar gyfer sefydliadau unigol, gan gynnwys SAC. Ni fydd SAC yn codi tâl ar y BBC am unrhyw adolygiad a gynhelir ganddo;
- Cyflwynir adroddiadau gan SAC neu gontractwyr i Bwyllgor Archwilio'r BBC ac yna, fe'u cyflwynir yn llawn i'r Senedd gan Lywodraethwyr y BBC, ynghyd ag ymateb y Gorfforaeth, mewn ffordd amserol ond ar yr un pryd ag y cyhoeddir Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC yn ôl pob tebyg;

Y Senedd fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid ystyried yr adroddiadau.

Erbyn i'r Siarter bresennol ddod i ben, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd ganddi ddigon o dystiolaeth i farnu effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

58. Mae'r Uned Gwynion Rhaglenni yn delio â chwynion ynghylch gwasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded ac mae'n ymgynghori â'r Comisiwn Safonau Darlledu (y bydd Ofcom yn gyfrifol am ei swyddogaethau cyn bo hir). Mae Pwyllgor Cwynion Rhaglenni y Llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir y sylw cywir i gwynion gan wylwyr a gwrandawyr, ac mae'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr Uned Gwynion Rhaglenni neu gyfarwyddwyr adrannau'r BBC ynghylch cwynion difrifol.

59. Ar hyn o bryd, mae prif ddyletswydd y BBC tuag at y rhai sy'n talu'r drwydded a chynulleidfaoedd sy'n cynnwys y rhai sy'n talu'r drwydded. Pa fecanwaith ariannu bynnag a bennir gan yr adolygiad o'r Siarter fel yr un priodol ar gyfer y dyfodol, bydd atebolrwydd y BBC yn parhau i fod yn fater hollbwysig.

60. Rydym yn dymuno clywed safbwyntiau ynghylch y trefniadau gorau er mwyn sicrhau bod y BBC yn hollol atebol i'r cyhoedd am ei berfformiad. Beth ddylai natur y contract rhwng y BBC a'r cyhoedd fod, a sut y ddylid ei weithredu? A yw'r BBC yn ymateb ddigon i anghenion a phryderon y rhai sy'n talu ffi'r drwydded, ac os nad yw, sut y gellir gwella hynny?

Cwestiwn allweddol

- **A yw'r BBC yn ymateb ddigon i'w wylwyr a'i wrandawyr ac i'r Senedd? Pa welliannau, os o gwbl, y gallai'r BBC eu gwneud?**

Pen y daith

61. Cynlluniwyd y themâu yn y ddogfen hon i helpu ymatebwyr i ffurfio'u safbwyntiau eu hunain ynghylch pob agwedd ar y BBC, ar bob lefel o ran manylder. Nid eu diben yw cyfyngu ystyriaethau ac os oes materion y dylai'r Llywodraeth roi mwy o bwyslais arnynt, neu gwestiynau eraill y dylid eu gofyn, hoffem glywed amdanynt.

62. Maent, fodd bynnag, yn arwain at un cwestiwn cyffredinol: sut BBC yr hoffem ei weld yn y dyfodol?

Yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Rhagfyr 2003

Crynodeb o'r themâu a'r cwestiynau allweddol

Y BBC heddiw

'Beth rydych chi'n ei werthfawrogi am y BBC?'

- Beth yw'ch barn chi am gyfraniad y BBC tuag at fywyd yn y Deyrnas Unedig a'r byd ehangach? A ddylai hyn newid dros y ddegawd nesaf ac os dylai, sut?
- Pa werth y mae'r BBC yn ei ychwanegu at ddarpariaeth ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus?
- Pa mor dda y mae'r BBC wedi cyflawni ei amcanion yn ystod cyfnod y Siarter? Pa dystiolaeth sydd gennym bod y ffordd y mae'r BBC yn gwneud hyn yn llwyddiannus o'i chymharu â darlledwyr eraill?
- Beth sy'n gwneud y BBC yn sefydliad unigryw? Sut mae sicrhau ei fod yn wahanol i ddarlledwyr eraill? A oes ffyrdd gwell o ddarparu rhywfaint o'r cyfraniad yr ydym wedi dibynnu ar y BBC i'w ddarparu yn draddodiadol?
- Pa mor dda y mae'r BBC yn gwasanaethu rhannau cyfansoddol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r rhanbarthau yn Lloegr? Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld?
- A yw'r cydbwysedd presennol rhwng rhaglennu cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol yn gywir?
- A yw'r cynnwys rhanbarthol a chymunedol presennol yn adlewyrchu amrywiaeth y rhanbarthau a'r cymunedau a wasanaethir, gan ddarparu'r hyn yr ydych yn ei ddymuno? Os na, beth y dylid ei newid?

Tirlun sy'n newid

'Sut y dylai'r BBC addasu i ymdopi â newidiadau mewn technoleg a diwylliant?'

- Sut y dylai'r BBC ymateb i ddatblygiad technolegau newydd ac arferion gwylio a gwrando sy'n newid?

Swyddogaethau a gwasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus

'Beth yw'ch barn chi am y gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein a ddarperir gan y BBC?'

- Beth yw'ch barn chi am y gwasanaethau a ddarperir gan y BBC ac a ariennir gan arian cyhoeddus, ar y teledu, y radio ac ar-lein? Pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld?
- Pa mor dda y mae gwasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus yn cyflawni ei amcanion craidd?
- Ym mha ffordd y dylai gwasanaethau'r BBC fod yn wahanol i wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a darlledwyr masnachol eraill er mwyn ychwanegu gwerth? I ba raddau y dylai'r BBC ddarparu 'rhywbeth i bawb'?

Gwasanaethau masnachol

'A ddylai'r BBC redeg gwasanaethau masnachol?'

- Yn eich barn chi, a ddylai'r BBC barhau i redeg gwasanaethau masnachol ar y cyd â'i wasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus?
- Os dylai'r BBC barhau i redeg gwasanaethau masnachol, sut y dylem sicrhau bod y berthynas rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a masnachol yn un deg i gystadleuwyr masnachol y BBC?
- A ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar weithgareddau masnachol y BBC ac os dylid, beth ddylai'r cyfyngiadau hynny fod?

Talu am y BBC

'Sut y dylem dalu am y BBC?'

- Ai ffi'r drwydded yw'r ffordd orau o dalu am wasanaethau cyhoeddus y BBC o hyd?
- Os na, pa ddewisiadau amgen yr hoffech eu gweld yn cael eu harchwilio?
- A yw'r BBC yn sicrhau gwerth am arian?
- Ai cymorth grant trwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yw'r ffordd orau o dalu am BBC World Service o hyd?

Trefniadaeth ac isadeiledd

'A yw'r BBC wedi'i drefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon?'

- Sut y dylid trefnu'r BBC i gyflawni ei swyddogaethau a'i wasanaethau? A ddylai barhau i weithredu fel un sefydliad?
- A yw'r BBC yn darlledu'r cydbwysedd cywir o ran cynyrchiadau mewnol a'r rhai a gynhyrchir yn annibynnol? Pa mor bwysig yw hi i'r BBC wneud rhaglenni yn ogystal â'u comisiynu?
- Sut y dylem sicrhau bod y BBC yn parhau i feithrin talent ddarlledu o safon byd?

Llywodraethu, rheoleiddio a chyfansoddiad

'Sut y dylid llywodraethu a rheoleiddio'r BBC?'

- Yn eich barn chi, a geir y cydbwysedd cywir rhwng y Llywodraethwyr ac Ofcom yn y ffordd y caiff y BBC ei reoleiddio?
- Ai Siarter Frenhinol yw'r sail fwyaf priodol o hyd ar gyfer sefydliad y BBC?

Atebolrwydd

'Sut mae sicrhau bod y BBC yn atebol i'r cyhoedd a'r Senedd yn y ffordd gywir?'

- A yw'r BBC yn ymateb ddigon i'w wylwyr a'i wrandawyr ac i'r Senedd? Pa welliannau, os o gwbl, y gallai'r BBC eu gwneud?

Atodiad A: Gwasanaethau'r BBC a ariennir gan arian cyhoeddus

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5]	Gwariant[6] (£miliwn)	Cyfran o'r gynulleidfa[7](%)	Cyrhaeddiad y gynulleidfa[8](%)
	Teledu a newyddion			
BBC1	Mae BBC One yn sianel gwasanaeth cyhoeddus y brif ffrwd sy'n cynnig ystod eang o raglenni Prydeinig poblogaidd o ansawdd uchel ym mhob genre. Mae'n ceisio bod yn berthnasol i'r DU fodern gan gyflwyno chwaeth a syniadau newydd a chyffrous i'w chynulleidfaoedd. Mae BBC One yn ceisio cynnig rhywbeth o werth i bawb. Nod y sianel yw bod popeth a ddarlledir ganddi yn uchelgeisiol, gan sicrhau bod pynciau difrifol yn berthnasol ac ar gael i ystod eang o gynulleidfaoedd gwahanol. Yn ogystal, mae gan BBC One rôl unigryw fel y sianel y mae pobl yn troi ati ar adegau o arwyddocâd cenedlaethol, gan roi cyfrifoldeb penodol iddi i roi sylw i ddigwyddiadau pwysig. Nid yn unig y mae BBC One yn ceisio darparu gwasanaethau lleol a rhanbarthol rhagorol, mae hefyd yn ceisio adlewyrchu bywyd mewn gwahanol rannau o'r DU trwy gyfrwng ei phrif amserlen ar y rhwydwaith.	858.9	25.5[9] 19.7[10]	81.0[11] 76.5[12]
BBC2	Mae BBC Two yn ceisio denu cynulleidfa eang i wylio rhaglenni teledu heriol a deallus trwy gynnwys uchelgais, gallu creadigol ac arloesedd ym mhopeth y mae'n ei wneud. Mae gan y sianel genhadaeth i dreiddio'n ddyfnach i'r hyn sydd o wir ddiddordeb i bobl heddiw, a'r hyn sy'n eu hysbrydoli. Mae'n ceisio rhoi rhywbeth i'w gwylwyr ar ddiwedd pob rhaglen – syniad newydd, dyhead ar gyfer y dyfodol neu frwdfrydedd a chyfranogiad newydd mewn meysydd pwnc. Mae BBC Two yn ceisio mynd dan groen y byd modern - boed hynny trwy gyfrwng hanes, gwyddoniaeth, rhaglenni dogfen, y celfyddydau a materion cyfoes, neu ddrama, comedi a rhaglenni ffeithiol poblogaidd. Byddwn yn ymestyn yr ystod hon trwy ddarlledu oddeutu 100 awr o raglenni gorau BBC Four ar BBC Two. Bydd BBC Two yn sicrhau y rhoddir sylw rheolaidd pellach i bynciau difrifol yn ystod yr oriau gwylio brig. Mae BBC Two yn cyfannu sylw BBC One i chwaraeon ond mae hefyd yn cynnig chwaraeon y maent bellach yn chwaraeon i ni, megis snwcer. Bydd BBC Two yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth daearyddol ac ethnig y DU yn allbwn y brif ffrwd.	367.4	10.8[13] 6.9[14]	64.5[15] 54.2[16]

[5] Datganiadau Polisi Rhaglennu y BBC 2003/2004
[6] Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC 2002-3
[7] Chwarter 3 BARB a RAJAR 2003
[8] Chwarter 3 BARB a RAJAR 2003
[9] Pob cartref
[10] Cartrefi amlsianel
[11] Pob cartref
[12] Cartrefi amlsianel
[13] Crynodeb o'r holl wylio
[14] Cartrefi amlsianel
[15] Pob cartref
[16] Cartrefi amlsianel

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5]	Gwariant[6] (£miliwn)	Cyfran o'r gynulleidfa[7](%)	Cyrhaeddiad y gynulleidfa[8](%)
Teledu a newyddion				
BBC3	Yn ei hanfod, mae BBC Three yn sianel ddigidol ryngweithiol ac amlddiwylliannol sy'n ceisio denu sylw cynulleidfa o oedolion ifanc sy'n disgwyl llawer, trwy ddarparu rhaglenni uchelgeisiol a ffasiynol rhwng 7pm ac oddeutu 4am bob dydd. Mae'r sianel wedi ymrwymo i amserlen gymysg o newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth, celfyddyd, gwyddoniaeth a rhaglenni am faterion rhyngwladol, yn ogystal â rhaglenni adloniant a drama o ansawdd uchel ac sy'n torri tir newydd. Bydd BBC Three yn sianel Brydeinig unigryw i'r grŵp oedran hwn, lle y bydd o leiaf 90% o'r allbwn yn dod o'r wlad hon a thros 80% yn newydd ac wedi'i gomisiynu'n benodol ar gyfer y sianel hon. Nid yn unig y mae hwn yn ymrwymiad i'r gynulleidfa a diwydiant creadigol y DU, ond mae hefyd yn golygu bod BBC Three yn fan lle y gall talent newydd lansio prosiectau uchelgeisiol gyda chymorth a chyfranogiad talent sydd wedi hen ennill ei blwyf ar y sgrîn ac oddi ar y sgrîn.	75.5	0.7	12.5[17]
BBC4	Nod BBC Four yw cynnig y sianel deledu fwyaf deallusol a diwylliannol, gan ddarparu ystod a dyfnder na cheir mohono mewn unrhyw fan arall a dwyn persbectif rhyngwladol i'r allbwn, o newyddion i raglenni dogfen, sinema a pherfformiadau. Mae BBC Four yn darparu newyddion a sylwebaeth ddeallus ar ddigwyddiadau yn y DU ac o gwmpas y byd, mae'n adlewyrchu ac yn cyfrannu at fywyd diwylliannol y wlad trwy gyfrwng ystod eang o gerddoriaeth, celfyddyd a digwyddiadau, ac mae'n cynnig llwyfan i leisiau na chlywir mohonynt yn y brif ffrwd yn aml. Mae'r sianel yn rhoi'r cyfle i nodi'r cyd-destun ac archwilio pynciau'n ddyfnach. Mae BBC Four yn ceisio ystyried y sefyllfa allanol, gan ddarparu dewisiadau amgen go iawn – meincnod ansawdd yn y byd darlledu digidol.	41.2	0.2	3.1[18]

[17] Cartrefi amlsianel
[18] Cartrefi amlsianel

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5]	Gwariant[6] (£miliwn)	Cyfran o'r gynulleidfa[7](%)	Cyrhaeddiad y gynulleidfa[8](%)
Teledu a newyddion				
CBeebies	Mae CBeebies yn sianel deledu a gynigir trwy'r gwasanaeth digidol yn unig ac sy'n cynnig ystod o raglenni addysgiadol a difyr newydd ac o ansawdd uchel i blant dan chwech oed. Cynhyrchir y rhain yn y DU yn bennaf. Mae ar gael rhwng 7am a 7pm ac mae'n darparu amgylchedd diogel cyson i gynulleidfa ieuengaf y BBC. Bydd CBeebies yn cynnwys rhagor o raglenni addysgiadol trwy gydol y dydd nag unrhyw sianel arall ar gyfer y grŵp oedran hwn. Fe'i cynorthwyir gan wefan a gwasanaeth teledu rhyngweithiol ychwanegol. Bydd y rhain yn ceisio cynnig cyfleoedd dysgu pellach trwy gyfrwng gemau a straeon, er mwyn annog sgiliau adnabod lliwiau a siapau, categoreiddio a datblygu'r cof.	39.9	1.3	8.0[19]
CBBC	Mae CBBC yn sianel deledu a gynigir trwy'r gwasanaeth digidol yn unig ac sy'n cynnig rhaglenni newydd o'r DU yn bennaf, mewn amserlen o wahanol genres i blant rhwng chwech a deuddeg oed. Mae'r sianel ar gael rhwng 7am a 7pm bob dydd ac mae'n ceisio bod yn sianel hollol ryngweithiol, gan roi'r cyfle i bob plentyn gyfranogi.		0.3	3.8[20]
BBC News 24	Prif ddiben BBC News 24 yw darparu newyddiaduraeth ddifrifol a grymus, gan fanteisio ar fuddsoddiad hir dymor mewn adrodd uniongyrchol gan ohebwyr y BBC ledled y DU ac ym mhob cwr o'r byd. Rydym yn rhoi sylw cyflym a cynhwysfawr i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd – ar lefel ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol – a dadansoddi arbenigol i osod y newyddion yn ei gyd-destun. Byddwn yn cryfhau ein hymrwymiad i agenda arbennig yn arddull 'papurau newydd dalennau llydain', sy'n fwy dadansoddol, yn fwy rhyngwladol ac yn ehangach o ran ei hagwedd na sianelau newyddion eraill y DU.	23.8	0.5	6.2[21]
BBC Parliament	Mae BBC Parliament yn sianel deledu ddigidol sy'n rhoi sylw cynhwysfawr i'r holl seneddau a chynulliadau sy'n llywodraethu bywyd gwleidyddol y Deyrnas Unedig. Hon yw'r unig sianel yn y DU sydd wedi llwyr ymrwymo i wleidyddiaeth, 52 wythnos y flwyddyn.	2.7	Nid yw ar gael	Nid yw ar gael

[19] Cartrefi amlsianel
[20] Cartrefi amlsianel
[21] Cartrefi amlsianel

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5]	Gwariant[6] (£miliwn)	Cyfran o'r gynulleidfa[7](%)	Cyrhaeddiad y gynulleidfa[8](%)
	Radio[22]			
BBC Radio 1	Nod BBC Radio 1 yw cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'w chynulleidfa darged ifanc ac i'w bywydau. Mae wedi'i seilio ar gerddoriaeth ond ychwanegir at hyn gan elfennau neilltuol eraill o wasanaeth cyhoeddus gan gynnwys newyddion, eitemau ac ymgyrchoedd cynghori gwreiddiol sy'n llawn gwybodaeth am y materion sy'n bwysig i'r gynulleidfa. Nod y rhwydwaith yw cynnig y gerddoriaeth newydd orau, gyda pholisi cerddoriaeth sy'n delio â'r holl genres perthnasol.	17.2	8	20.8
BBC Radio 2	Nod BBC Radio 2 yw dwyn ystod eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol, newyddion, materion cyfoes, comedi, darlleniadau ac ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i gynulleidfa'r brif ffrwd. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i gynnig amrywiaeth o allbwn crefyddol sy'n delio â chredoau amrywiol ein cynulleidfa.	21.6	15	23.8
BBC Radio 3	Mae BBC Radio 3 yn cynnig cerddoriaeth fyw a chelfyddyd, gan ddarlledu ystod eang o weithgarwch diwylliannol. Mae'r rhwydwaith yn cynnig mwy na cherddoriaeth glasurol draddodiadol, gan gynnwys cerddoriaeth y byd a jazz yn ogystal â drama a thrafodaethau ynghylch y celfyddydau. Caiff cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig flaenoriaeth yn yr amserlenni. Bydd BBC Radio Three yn helpu i gynnal economi creadigol y DU trwy noddi cyfansoddwyr a pherfformwyr, gan gynnwys chwe grŵp perfformio y BBC.	30.2	1.2	4.1
BBC Radio 4	Prif bwrpas BBC Radio 4 yw defnyddio grym y gair llafar i gynnig rhaglenni sy'n ceisio peri syndod, sy'n ymchwilio, sy'n datgelu, sy'n difyrru ac sy'n ystyried materion yn fanwl. Mae'r rhwydwaith yn ceisio ysbrydoli ei gynulleidfa a sicrhau ei chyfranogiad, gan roi sylw amrywiol a threiddgar i fyd cymhleth ac sy'n newid, a chan gynnig y sylw manylaf i newyddion a materion cyfoes.	64.8	11.3	17.8
BBC Radio Five Live	Mae BBC Radio Five Live yn darlledu newyddion yn fyw ac mae Five Live yn darlledu chwaraeon 24 awr y dydd, gyda'r nod o ymateb i newyddion a digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd a'u cyflwyno mewn ffordd fodern ac y gellir manteisio arni. Ein nod yw delio â phynciau'n fanwl gan ddefnyddio gwaith dadansoddi a thrafod eang i hysbysu, diddanu a chynnwys gwrandawyr. Yn ogystal, rydym yn rhoi sylw i chwaraeon byw, a gynorthwyir gan weithrediadau adrodd newyddion byd-eang y BBC a'n portffolio o hawliau chwaraeon. Mae 75% o'r rhaglenni'n rhaglenni newyddion a materion cyfoes, a 25% yn rhaglenni chwaraeon.	53.8	4.2	10.9

[22] Gweler 'Cenhedloedd a rhanbarthau' hefyd

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5]	Gwariant[6] (£miliwn)	Cyfran o'r gynulleidfa[7](%)	Cyrhaeddiad y gynulleidfa[8](%)
	Radio[22]			
BBC Five Live Sports Extra	Cynlluniwyd BBC Five Live Sports Extra i gynnig dewis i Sports Extragefnogwyr chwaraeon. Bydd y rhwydwaith yn ymestyn y dewis pan gynhelir digwyddiadau chwaraeon byw trwy roi sylw amgen i chwaraeon ar radio digidol DAB, teledu digidol a, phan fo'r hawliau'n caniatáu hynny, ar y rhyngrwyd.	1.7	0.1	0.6
1Xtra	Mae 1Xtra gan y BBC wedi ymrwymo i chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau i gynulleidfa drefol ifanc. Mae'n delio â genres 'y stryd' megis UK garage, drum and bass, hip hop ac R'n'B, gan roi sylw i gerddoriaeth a thalent newydd o'r DU mewn genres lle y daw mwyafrif yr allbwn o UDA, a chyflwynir hyn oll gan DJ's newydd o bob cwr o'r wlad. Trwy ddarparu mewnbwn llafar perthnasol gan dîm newyddion ymroddedig a rhaglen drafod wythnosol, ar y cyd â cherddoriaeth fyw wythnosol o bob cwr o'r wlad, nod 1Xtra yw sicrhau bod ei chynulleidfa yn gallu manteisio ar orsaf wedi'i thargedu at ei hanghenion ac wedi ymrwymo i'w ffordd o fyw – nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.	4.0	0.1	0.7
6 Music	Mae 6 Music gan y BBC yn wasanaeth radio digidol sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth ac artistiaid na chânt lawer o sylw gan orsafoedd radio eraill, gan gynnwys sesiynau a chyngherddau archif clasurol gydag artistiaid newydd o'r DU.	4.0	0.1	0.3
BBC 7	Mae BBC 7 yn wasanaeth radio digidol ar gyfer iaith lafar yn hytrach na cherddoriaeth, ac sy'n ceisio darparu adloniant pur a denu cynulleidfa newydd i wasanaeth radio iaith lafar. Mae BBC 7 yn canolbwyntio ar fathau o raglenni er mwyn i bobl allu cyfarwyddo â gwybod y bydd math penodol o allbwn ar gael bob amser ar adeg benodol o'r dydd. Mae'r rhwydwaith yn cynnig comedi, eitemau, drama, darlleniadau a newyddion. Yn ogystal, rydym yn bwriadu bod yn gartref i radio iaith lafar fyw i blant, gan gynnig rhaglenni dyddiol i blant.	2.2	0.1	0.6
BBC Asian Network	Mae BBC Asian Network yn darlledu yn Saesneg yn bennaf i Network gymunedau Asiaidd Prydeinig ledled y DU. Mae'r orsaf yn siop-un-stop lle y gall gwrandawyr glywed newyddion, chwaraeon a cherddoriaeth Asiaidd Prydeinig cenedlaethol a rhyngwladol dyddiol, sy'n amrywio o'r synau Asiaidd diweddaraf i hoff gerddoriaeth o fyd y ffilmiau. Mae BBC Asian Network yn hollol rhyngweithiol a thrwy gyfrwng e-bost, sesiynau ffonio a hysybysfyrddau, mae'n cynnig fforwm i drafod y materion difrifol a'r materion pob dydd sy'n ennyn sylw cymunedau Asiaidd ym Mhrydain	3.1	0.4	1.0

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl	Gwariant[23] (£'000)
	Rhyngweithiol	
BBCi	Mae BBCi yn cynnwys gwasanaethau rhyngweithiol y BBC ar y we, ar y teledu ac ar draws dyfeisiau symudol. Nod BBCi yn y tymor hir yw cynorthwyo datblygiad Prydain ddigidol – gan annog cynulleidfaoedd i fanteisio ar y byd digidol rhyngweithiol a'u helpu i sylweddoli ei holl fanteision. Mae BBCi yn darparu ystod eang o gynnwys arbennig sy'n cyd-fynd â gwasanaethau darlledu y BBC ac yn mynd y tu hwnt iddynt, gan gynnig cyfleoedd i gynulleidfaoedd archwilio ac ystyried pynciau a materion sydd o ddiddordeb iddynt, yn ddyfnach. Trwy gyfrwng BBCi, mae'r BBC yn ceisio meithrin perthynas newydd gyda chynulleidfaoedd, perthynas sy'n ymateb iddynt ac sy'n fwy atebol iddynt. Pan fo hynny'n briodol, mae BBCi yn ei alluogi i gyfranogi neu gyfrannu at raglenni a gwasanaethau'r BBC a chyda'i gilydd, mewn cymunedau wedi'u seilio ar frwdfrydedd tuag at ddiddordebau a nodweddion lleol a rennir.	72.3[24]
	Cenhedloedd a rhanbarthau	
BBC Scotland	Cylch gorchwyl BBC Scotland yw darparu rhaglenni a gwasanaethau arbennig ac o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu ac yn cyfrannu at ddiwylliant a diddordebau cynulleidfaoedd yn yr Alban. Trwy gyfrwng ystod amrywiol o wasanaethau – BBC One Scotland, BBC Two Scotland, BBC Radio Scotland, BBC Radio nan Gaidheal a BBCi Scotland – ein nod yw bod yn ddarlledwr cenedlaethol yr Alban. Bwriadwn fod yn rym dros gydlyniad diwylliannol, gan ddarparu agenda newyddion genedlaethol, ysgogi trafodaeth wleidyddol a chymdeithasol, rhoi sylw i'r digwyddiadau chwaraeon pwysicaf, a chreu rhaglenni ar bob platfform sy'n adlewyrchu chwaeth a phersbectifau Albanaidd neilltuol. Byddwn hefyd yn ceisio adlewyrchu diwylliant a chymdeithas yr Alban, a golwg unigryw yr Albanwyr ar y byd, i gynulleidfa'r DU.	211.1[25] 130.8[26]
BBC Northern Ireland	Nod BBC Northern Ireland yw darparu rhywbeth o werth i bawb yn y gymuned, trwy gyfrwng ystod eang o raglenni a gwasanaethau arbennig sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas leol, sy'n cyfoethogi trafodaeth, sy'n meithrin diwylliant ac sy'n ganllaw i wybodaeth newydd y mae pobl yn ymddiried ynddi. Bydd BBC Northern Ireland yn darparu ystod gyfoethog o genres, ar BBC One, BBC Two a BBC Two NI Digital. Bydd BBCi Northern Ireland yn parhau i ddarparu'r prif fforwm ar gyfer newyddion ar-lein gan geisio cyfoethogi rhyngweithio gan y gynulleidfa ar-lein. Trwy gyfrwng BBC Radio Foyle, bydd BBC Northern Ireland yn parhau i ddarparu gwasanaethau lleferydd, cerddoriaeth a chwaraeon lleol unigryw.	
BBC Cymru	Nod BBC Cymru yw darparu rhaglenni arbennig ac o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu diwylliant unigryw Cymru trwy gyfwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn cyflawni hyn trwy gyfrwng ystod o wasanaethau – BBC One, BBC Two, BBC 2W (digidol), BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBCi Cymru a BBC Cymru'r Byd, yn ogystal â'n hallbwn teledu Cymraeg ar S4C. Rydym yn ceisio cyfoethogi bywydau ein cynulleidfaoedd trwy gyfrwng gwasanaethau sy'n ysgogi ac sy'n hysbysu trafodaeth, sy'n meithrin cymunedau lleol, sy'n dathlu ac yn cynorthwyo bywyd diwylliannol a chwaraeon Cymru ac sy'n archwilio diddordebau ac angerdd Cymru. Byddwn yn adlewyrchu bywyd yng Nghymru a thalent Cymreig yng Nghymru, i weddill y DU ar rwydweithiau'r BBC ac i'r byd trwy gyfrwng gwasanaethau ar-lein.	

[23] Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC 2002-3
[24] BBCi ar y rhyngwyd. Yn ystod yr un cyfnod, gwariwyd £9.5 miliwn ar Destun Digidol a Theledu Rhyngweithiol
[25] Cyfanswm y gwariant ar deledu cenedlaethol a rhanbarthol
[26] Cyfanswm y gwariant ar radio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Gwasanaeth	Cylch gorchwyl[5] Cylch gorchwyl	Gwariant[23] (£'000)
	Cenhedloedd a rhanbarthau	
BBC English Regions	Nod BBC English Regions yw darparu gwasanaeth newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth, chwaraeon a thywydd y mae pobl yn ymddiried ynddo trwy gyfrwng teledu rhanbarthol, radio lleol, gwefannau lleol BBCi, canolfannau agored a bysiau'r BBC.	
	BBC World Service	
BBC World Service	Nodau BBC World Service yw: • Bod y dewis cyntaf yn y byd ymhlith darlledwyr rhyngwladol sydd am gael newyddion a gwybodaeth awdurdodol a diduedd, y mae pobl yn ymddiried ynddo oherwydd ei gywirdeb, ei annibyniaeth olygyddol a'i arbenigedd • Bod yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu o ansawdd uchel • Cyfleu gwerthoedd Prydain o fod yn ddibynadwy, yn agored, yn deg, yn greadigol, yn fentrus ac yn gymunedol • Darparu fforwm cyfnewid syniadau ar draws ffiniau diwylliannol, ieithyddol a chenedlaethol • Hyrwyddo'r iaith Saesneg, dysg a diddordeb mewn Prydain fodern a chyfoes • Cynnig llwyfan i dalent Prydeinig ledled y byd	216.3[27]

Ymrwymiadau cyffredinol y BBC

Yn ogystal, mae addewidion Datganiadau Rhaglennu y BBC yn nodi nifer o ymrwymiadau cyffredinol ar gyfer y sefydliad cyfan. Nodir y rhain isod:

Mae ymrwymiad y BBC i gynulleidfaoedd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r polisi rhaglennu ar gyfer gwasanaethau unigol. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau sylweddol sy'n berthnasol i'n holl wasanaethau.

Amrywiaeth

Mae'r BBC yn ceisio cynnig rhywbeth i bob grŵp oedran a phob grŵp diwylliannol yn ogystal â phob rhan o'r DU. Byddwn yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ddenu cynulleidfaoedd o leiafrifoedd ethnig y DU trwy gyfrwng gwasanaethau'r brif ffrwd a gwasanaethau wedi'u targedu.

Byddwn hefyd yn ceisio gwella cymhareb y bobl o leiafrifoedd ethnig ymhlith ein staff. Ein nod yw sicrhau bod 10% o'n staff, a 4% o'n staff uwch, yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol erbyn diwedd 2003.

Bydd mentrau i ddenu talent newydd yn cynnwys The Writer's Room, lle y mae talent ysgrifennu o Ogledd Lloegr ac o leiafrifoedd ethnig yn cael blaenoriaeth. Mae Bollywood Shorts, cystadleuaeth ffilm fer genedlaethol yn ymwneud â dehongliad Prydeinig o Bollywood, yn ceisio arwain at bum comisiwn ar gyfer BBC Four. Yn ogystal, bydd BBC Drama yn lansio menter i ddenu talent actio newydd ac amrywiol. Caiff cynllun prentisiaeth newydd ar gyfer hyfforddeion technegol ei ddatblygu ar y cyd â mentrau amrywiaeth eraill yn y BBC.

Cenhedloedd a Rhanbarthau

Bydd Golygyddion Cymunedol a benodwyd yn ddiweddar mewn nifer o orsafoedd radio lleol, yn datblygu'r agenda hon ymhellach.

[27] Adolygiad Blynyddol 2002/2003

Manteisio ar wasanaethau

Mae'r BBC yn aelod o Rwydwaith Anabledd y Darlledwyr a'i nod yw:

- ehangu presenoldeb pobl anabl ar yr awyr ac ar y sgrîn
- ehangu nifer y bobl anabl ym mhob rhan o'r gweithlu
- ehangu'r cyfleoedd i fanteisio ar wasanaethau, ar yr awyr ac oddi ar yr awyr
- sicrhau y gellir manteisio ar ei adeiladau

Mae gennym ddyletswydd arbennig i sicrhau bod pobl ddall a'r rhai â nam ar eu golwg a'r rhai sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw, yn gallu mwynhau ein gwasanaethau hefyd. Rydym yn rhagori ar dargedau presennol ITC ynghylch is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifio clywedol ac rydym wedi ymrwymo i is-deitlo ein holl allbwn erbyn diwedd 2008. Pan fydd y Mesur Cyfathrebu[28] yn dod i rym, byddwn hefyd yn rhwym i god Ofcom sy'n ymwneud â darparu ar gyfer y byddar a'r rhai sydd â nam ar eu golwg.

Mae Rhan 3 y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn delio â'r gallu i fanteisio ar wasanaethau. Rydym wedi cytuno ar bolisïau ac wedi paratoi Llawlyfr Cynhyrchu sy'n nodi'r diwygiadau ar gyfer y rhai sy'n cynhyrchu rhaglenni. Byddwn yn parhau i fonitro pa mor dda y gweithredir y canllawiau hyn. Yn ogystal, mae gennym Ganllawiau i Gynulleidfaoedd Teledu sydd â Nam ar eu Golwg ac rydym yn gweithredu argymhellion sy'n codi o waith ymchwil ynghylch ehangu'r cyfleoedd i fanteisio ar BBCi.

Gwasanaethau'r BBC sydd ar gael yn gyffredinol

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl wasanaethau'n parhau i fod ar gael yn gyffredinol a'u bod yn rhad ac am ddim, a bod y rhai sy'n talu'r drwydded yn gallu manteisio arnynt trwy gyfrwng cyfryngau newydd wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Mae'r gwasanaethau digidol ar gael ar Freeview, teledu lloeren a chebl yn y ffordd ac i'r graddau y mae pob platfform yn caniatáu hynny.

Cymorth ar gyfer cynhyrchu yn y DU

Ein nod yw gwasanaethu'r DU cyfan. Mae hyn yn golygu cynorthwyo'r diwydiant cynhyrchu Prydeinig, ac mae'n gwasanaethau newydd yn cynnig cyfleoedd newydd sylweddol. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, cynhyrchir oddeutu 90% o'n holl allbwn ar y teledu yn yr UE/EAA, a hyn bron i gyd ym Mhrydain.

Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfran resymol o raglenni'r BBC ar gyfer cynulleidfa gyffredinol y DU, yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, ac yn y rhanbarthau yn Lloegr y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr. Yn fras, mae hyn yn cyfeirio at oddeutu un rhan o dair o'n rhaglenni. Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gweithio gydag Ofcom i bennu cwotâu i'r diwydiant yn y dyfodol.

Cynhyrchu annibynnol

Mae'r BBC bob amser yn ceisio bodloni'r cwotâu a bennir ynghylch canran y cynyrchiadau annibynnol ac Ewropeaidd a ddarlledir dan amodau Deddf Darlledu 1990 (a'r Mesur Cyfathrebu pan fydd yn dod i rym) a'r Gyfarwyddeb Teledu heb Ffiniau. Rydym yn darlledu oddeutu 90% o allbwn Ewropeaidd ar draws ein sianelau teledu yn gyson. Disgwyliwn i hyn fod yn wir eleni hefyd, gan fodloni'r cwota Ewropeaidd annibynnol o 10%.

[28] Rhoddwyd Caniatâd Brenhinol i'r Ddeddf Gyfathrebu ar 17 Gorffennaf 2003

Byddwn hefyd yn cyhoeddi cod ymarfer newydd ar gyfer ein cyswllt â chynhyrchwyr annibynnol yn y DU gan gytuno ar amodau masnachu newydd gyda nhw. Rydym yn parhau i fod yn hollol ymrwymedig i'n haddewid wirfoddol y caiff 10% o'r oriau cymwys ar ein rhwydweithiau radio analog cenedlaethol eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol. Ystyriwn mai hon fydd y lefel sylfaenol ac nid yr uchafswm, a byddwn yn gweithio i agor y gwaith a gomisiynir i gynhyrchwyr annibynnol pan fo hynny'n briodol, er mwyn datblygu'r sector cynhyrchu yn y DU.

Hyfforddiant

Bydd y BBC yn parhau ei fuddsoddiad sylweddol – oddeutu £40 miliwn y flwyddyn – mewn sicrhau bod yr holl staff yn cael y cyfle i feithrin eu sgiliau a dysgu rhai newydd. Yn ogystal, byddwn yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i fentrau hyfforddi ar gyfer y diwydiant cyfan, yn ogystal â rhedeg cynlluniau i ddenu pobl newydd i'r diwydiant darlledu megis BBC Talent, sydd bellach yn cynnig pedwar cynllun ar draws y DU.

Atebolrwydd

Yn unol â'r amcanion a bennwyd gan y Llywodraethwyr, byddwn yn ceisio sicrhau mwy o werthfawrogiad ar gyfer y BBC fel sefydliad cyhoeddus agored ac y mae pobl yn ymddiried ynddo. Byddwn yn chwilio am ysbrydoliaeth ac yn dysgu gan ein cynulleidfaoedd, yn cael blas ar adborth ac yn ymateb yn onest i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym.

Atodiad B: Gweithgareddau masnachol y BBC

(Tynnwyd y ffigurau o Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol 2002/2003)

• Gweithrediadau is-gwmnïau

Mae UK Public Service Broadcasting yn berchen ar 100% o'r cyfalaf cyfrannau a ryddhawyd ar gyfer y cwmnïau canlynol sydd wedi'u corffori ym Mhrydain:

BBC Commercial Holdings Limited
BBC Resources Limited
BBC Free To View Limited
BBC News Limited
BBC Property Limited
BBC Property Investments Limited
BBC Property Development Limited (cwsg)
Centre House Productions Limited
BBC Digital Programme Services Limited
BBC Subscription Television Limited (cwsg)
BBC Investments Limited (cwsg)

• Gweithrediadau is-gwmnïau

Yn ogystal, mae'r Grŵp yn meddu ar y cyfran reolaethol yng ngweithrediadau'r prif is-gwmnïau canlynol, a ddelir gan BBC World Service sy'n berchen ar 100% o'r cyfalaf cyfrannau a ryddhawyd:

Yr hyn a ddelir gan BBC World Service:
BBC East Asia Relay Company Limited (wedi'i gorffori yn Hong Kong)
BBC Radiocom (Bulgaria) EOOD (wedi'i gorffori ym Mwlgaria)
BBC Radiocom (Hungary) KFT (wedi'i gorffori yn Hwngari)
BBC Radiocom (Praha) s.r.o. (wedi'i gorffori yn y Weriniaeth Tsiec)
BBC Radiocom (Slovakia) s.r.o. (wedi'i gorffori yn y Weriniaeth Slofacaidd)
BBC Romania SRL (wedi'i gorffori yn Rwmania)
BBC Polska Sp. z.o.o. (wedi'i gorffori yng Ngwlad Pwyl)
BBC do Brazil Limitada (wedi'i gorffori ym Mrasil)
BBC Radiocom Deutschland GmbH (wedi'i gorffori yn yr Almaen)
BBC Croatia d.o.o. (wedi'i gorffori yng Nghroatia)
BBC World Service Trust*

** Mae BBC World Service Trust yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, a'r BBC yw'r unig aelod*

Mae'r Grŵp yn meddu ar y cyfran reolaethol yn yr is-gwmnïau canlynol hefyd, y maent wedi'u corffori ym Mhrydain oni nodir fel arall:

	Cyfran y cyfranddaliadau cyffredin a ddelir %
Yr hyn a ddelir gan BBC Commercial Holdings Limited:	
BBC Worldwide Limited	100
BBC World Limited	100
BBC Ventures Group Limited	100
Yr hyn a ddelir gan BBC Ventures Group Limited:	
BBC Technology Holdings Limited	100
BBC Broadcast Limited	100
Yr hyn a ddelir gan BBC Technology Holdings Limited:	
BBC Technology Limited	100
BBC Technology Services Limited	100
BBC Technology Supply Limited	100
Kingswood Warren Ventures Limited (ailenwyd yn BBC Vecta Limited ym mis Mai 2003)	100
BBC Technology Holdings LLC (wedi'i gorffori yn UDA)	100
BBC Technology Consultancy LLC (wedi'i gorffori yn UDA)	100
Yr hyn a ddelir gan BBC Worldwide Limited:	
Cyhoeddi	
BBC Magazines Inc. (wedi'i gorffori yn UDA)	100
Galleon Limited	100
Broadcasting Dataservices Limited	75
Cover to Cover Cassettes Limited	100
BBC Audiobooks Limited (Chivers Press Limited yn flaenorol)	100
Dosbarthu rhaglenni	
BBC Worldwide Americas Inc. (wedi'i gorffori yn UDA)	100
BBC Worldwide Music Limited	100
UK Programme Distribution Limited	95
BBC Worldwide Japan KK Limited (wedi'i gorffori yn Siapan)	100
BBC Worldwide France SARL (wedi'i gorffori yn Ffrainc)	100
BBC Worldwide Germany GmbH (wedi'i gorffori yn yr Almaen)	100
BBC Worldwide Canada Limited (wedi'i gorffori yng Nghanada)	100
Sianelau	
New Video Channel America LLC (wedi'i gorffori yn UDA)	100
European Channel Broadcasting Limited	100
European Channel Management Limited	100
Cwmnïau buddsoddi	
Worldwide Americas Investments Inc. (wedi'i gorffori yn UDA)	100
BBC Worldwide Investments Limited	100
BBC World Service Television Limited	100

Worldwide Channel Investments Limited	100
Worldwide Channel Investments (Europe) Limited	100
Worldwide Channel Investments (Ontario) Limited (wedi'i gorffori yng Nghanada)	100
Y Rhyngrwyd	
beeb Ventures Limited	86.9
Yr hyn a ddelir gan BBC World Limited:	
BBC World Distribution Limited	100
Satellite News Corporation Limited (wedi'i gorffori yn Siapan a'i ailenwi'n BBC World Distribution Japan Limited ym mis Ebrill 2003)	100
BBC World (Singapore) Private Limited (wedi'i gorffori yn Singapôr)	100
BBC World (Australia) Pty Limited (wedi'i gorffori yn Awstralia)	100
BBC Worldwide (India) Private Limited (wedi'i gorffori yn India)*	75

** Mae BBC Worldwide Limited yn dal 25% y gyfran sy'n weddill o gyfranddaliadau cyffredin y cwmni hwn*

• Buddiant mewn mentrau ar y cyd

Mae gan y Grŵp fudd ecwiti o 50% yn y mentrau canlynol ar y cyd, y maent oll wedi'u corffori yn y DU oni bai y nodir fel arall:

Enw'r endid	Gweithgarwch	Partner	Dyddiad cyfrifyddu
UK Channel Management Limited	Sianelau	Flextech	31 Rhag 2002
UK Gold Holdings Limited	Sianelau	Flextech	31 Rhag 2002
UKTV New Ventures Limited	Sianelau	Flextech	31 Rhag 2002
UKTV Interactive Limited	Sianelau	Flextech	31 Rhag 2002
JV Programmes LLC†	Sianelau	Discovery Communications Inc.	31 Rhag 2002
BBC Haymarket Exhibitions Ltd	Cyhoeddi	Haymarket Exhibitions Ltd	31 Rhag 2002
Insight Property Partnership	Eiddo	Land Securities Trillium Ltd	31 Mwrth 2003
DTV Services Limited*	Marchnata	Crown Castle UK Ltd	6 mis tan
		BskyB Ltd	31 Mwrth 2003

† Wedi'i gorffori yn UDA
** Budd ecwiti 33%*

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd y BBC i fenter newydd ar y cyd, DTV Services Limited, i ddarparu gwasanaethau marchnata i sianelau digidol ar blatfform daearol yn y DU. Ffurfiodd y BBC is-gwmni, BBC Free to View Limited (gweler Nodyn 13c), i ddal trwydded amlneges ddaearol ddigidol y BBC a'i fudd ecwiti yn y fenter ar y cyd er mwyn sicrhau y rheolir costau'r fenter hon ar y cyd ar wahân i weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded.

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r BBC, trwy gyfrwng ei is-gwmni BBC Worldwide, wedi ffurfio cytundebau partneriaeth mawr gyda Flextech, adran gynnwys Telewest Communications plc, er mwyn cynhyrchu a marchnata sianelau tanysgrifio yn y DU a chyda Discovery Communications Inc. ar gyfer cynnwys sianelau newydd ledled y byd a darparu arian cyd-gynhyrchu newydd ar gyfer rhaglenni. Mae'r cynghreiriau hyn yn gweithredu'r mentrau ar y cyd a restrir uchod.

£4.2 miliwn (2002 £6.4 miliwn) oedd cyfran y Grŵp yn nhrosiant menter ar y cyd Haymarket ac roedd ei gyfran o'r gwarged gweithredol yn £0.7 miliwn (2002 £0.3 miliwn).

Mae'r fenter ar y cyd gyda Land Securities Trillium Limited yn darparu ystod o wasanaethau datblygu ac eiddo i'r BBC. Ffurfiwyd cwmnïau cysylltiedig a mentrau cysylltiedig ar y cyd i ddatblygu eiddo penodol y BBC.

Mae'r datguddiadau canlynol yn cynrychioli cyfranddaliadau ecwiti y Grŵp o asedau a rhwymedigaethau ei fentrau ar y cyd, wedi'u seilio ar y canlyniadau ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu diweddaraf fel y dangosir uchod.

• Buddiant mewn cyfranogion

Mae'r Grŵp yn dal buddiant sylweddol yn y prif gyfranogion canlynol, sydd wedi'u corffori ym Mhrydain oni nodir fel arall:

	Cyfran y cyfranddaliadau cyffredin a ryddhawyd, a ddelir %
Yr hyn a ddelir gan UK Public Service Broadcasting:	
Parliamentary Broadcasting Unit Limited	33
Broadcasters Audience Research Board Limited	*
The Commonwealth Broadcasting Association	*
Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR)	50
Yr hyn a ddelir gan BBC World Service:	
Caribbean Relay Company Limited (wedi'i gorffori yn Antigwa)	45
Multimedia Ventures Limited	50
WRG-FM SA (wedi'i gorffori yn y Swistir)	40
Yr hyn a ddelir gan BBC Worldwide Limited:	
Cyhoeddi	
Frontline Limited	23
Sianelau	
UKTV Pty Limited (wedi'i gorffori yn Awstralia)	20
Animal Planet (Latin America) LLC (wedi'i gorffori yn UDA)†	50
People and Arts (Latin America) LLC (wedi'i gorffori yn UDA)†	50
Animal Planet LLC (wedi'i gorffori yn UDA)†	20
JV Network LLC (wedi'i gorffori yn UDA)†	50
Animal Planet (Asia) LLC (wedi'i gorffori yn UDA)†	50
The Animal Planet Europe Partnership†	50
Animal Planet Japan KK (wedi'i gorffori yn Siapan)†	33
Animal Planet Japan LLP (wedi'i gorffori yn UDA)†	50
Jasper Broadcasting Inc. (wedi'i gorffori yng Nghanada)	20
Jasper Junior Broadcasting Inc. (wedi'i gorffori yng Nghanada)	20
Animal Planet Canada Company ULC (wedi'i gorffori yng Nghanada)†	23
Yr hyn a ddelir gan BBC Resources Limited:	
3sixtymedia Limited	10
Yr hyn a ddelir gan BBC Property Limited:	
White City Development Partnership	**

** Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant, y mae'r BBC yn aelod ohonynt ar y cyd â darlledwyr eraill*
† Cyfrannog Discovery
*** Cyfran o 50% yn y bartneriaeth*

Atodiad C: Cyfeiriadau defnyddiol

The Future Funding of the BBC, Cadeirydd: Gavyn Davies (Gorffennaf 1999)
http://news.bbc.co.uk/hi/english/static/bbc_funding_review/reviewco.pdf

Financing the BBC, Cadeirydd: Yr Athro Alan Peacock (Gorffennaf 1986)
ISBN 0 10 198240 2

The Future of Broadcasting, Cadeirydd: Arglwydd Annan (Mawrth 1977)
ISBN 0 10 167530

Deddf Cyfathrebu 2003 a Nodiadau Esboniadol
http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030021.htm

Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol y BBC 2002/3
http://www.bbc.co.uk/info/report2003/

Polisi Datganiadau Rhaglenni y BBC 2003/4
http://www.bbc.co.uk/info/statements2003/

Hanes y BBC
http://www.bbc.co.uk/thenandnow/history/

Canllawiau Polisi Masnachol ac Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC
http://www.bbc.co.uk/info/policies/commercial_guides/

Canllawiau i Gynhyrchwyr
http://www.bbc.co.uk/info/policies/producer_guides/

Llywodraethu'r BBC yn Oes Ofcom
http://www.bbc.co.uk/info/policies/governance/pdf/bbcgovernancebooklet.pdf

Grŵp Ymgynghorol Llywodraethwyr y BBC ar gyfer World Service; *Adolygiad Blynyddol BBC World Service 2002/2003*

http://www.bbc.co.uk/worldservice/us/annual_review/2002/downloads.shtml